YR YMOFYNYDD.

Rhif. 27.] MAWRTH, 1861. [Ail Gyfres.

PAHAM Y MYN YR EGLWYSI GAEL TRINDOD?

Rhif. III.

Gwell fuasai genyf allu gadael heb ei grybwyll yr ateb nesaf y gorfyddir arnaf ei gynyg i'r gofyniad uchod. Cyfiawnder yn unig sy'n fy nghymhell i'w ddwyn dan sylw. A hyn yw, fod Rhagfarn, a dim amgen, yn peri fod llawer mor ddigonol gyda'u daliadau eu hunain, ac mor ddiofal a diystyrllyd tuag at eiddo pawb eraill, fel na cheir hwynt un amser yn barod i dderbyn, llawer llai yn chwilio am, unrhyw oleuni o'r tu allan i'w cylch a'u cysylltiadau eu hunain. Eu hunig gastell yw eu rhagfarn, ac i hwn y rhedant am ddyogelwch, fel yr ymlusga'r falwoden i'w chragen. Ni wyddant well am na cheisiant wybod. Wrth ddarllen eu Beiblau mae cèn o ragfarn ar eu llygaid, fel na welant ond y Drindod lân Fendigaid o ddechreu'r Beibl i'w ddiwedd. Ni wnant y tegwch â hwy eu hunain o ddal ar gyfleusderau i ddysgu pa beth sy gan yr Undodwr i ddweyd drosto ei hun. Yn hytrach, cadwant draw rhagddo fel pe byddai ei bresenoldeb yn eu halogi. Ni theimlent yn gysurus pe yn gwybod ei fod yn sefyll rhyngddynt a'r gwynt. Edrychant arno fel rhyw bla cyffredin. A hyn oll tra heb wybod dim am dano mewn gwirionedd. Maent wedi ei gollfarnu cyn rhoi cenad iddo erioed i amddiffyn ei hun. Yr oll a wyddant am dano a glywsant o enau ei wrthwynebwyr, y rhai fynychaf a dynant ei ddarlun mor anffyddlawn i'r gwirionedd, fel, pe na b'ai iddynt fel yr hen baentiwr gynt ysgrifenu o dano "*Undodwr yw*," na wnai neb byth freuddwydio hyny. Yn wir, yn y cyffredin, nid oes y boddlonrwydd mwyaf fod neb yn myned i wrando, nac yn darllen llyfrau yr Undodiaid, ac yr wyf yn gwybod fel mater o ffaith, ei bod yn rheol osodedig yn mhlith un o'r cyrff crefyddol mwyaf lliosog yn ein gwlad nad oes i neb o honynt ymbriodi ag Undodwr, heb gael ei ddiarddel, yn gymhwys yr un fath, os nad yn fwy diffafr, na phe yr unai ei hun â rhywun heb fod yn proffesu unrhyw grefydd o gwbl. Cypla llawer ni gydag anffyddwyr a'r terfysgwyr gwladol gwaethaf; a'r argraff ar eu meddwl am danom yw mai ein hymgais yw tori dan sylfaeu crefydd bur, ein bod ond yn cael ein cadw o fewn terfynau gan rym cyfraith wladol, ein bod yn gwrthod awdurdod yr Ysgrythyrau; ac nid ychydig yr wyf yn ofni yw nifer y rhai a dybiant fod genym Feibl bach i ni ein hunain, gwahanol i eiddo pobl ereill. Yn yr ardal lle yr wyf yn ysgrifenu, gwn nad yw dynion yn awr mor anwybodus a hyn, ond mewn rhai manau y maent, fel y gwel neb ag sydd yn gyfarwydd a rhai o gyhoeddiadau crefyddol ein gwlad. Rhy amhosibl fyddai

gor-ddarlunio y tywyllwch a ffyna yn rhai parthau. Mae yn wir nad ydym mor lliosog ag i beri i'n llais i gael ei glywed eto o un pen i'r wlad i'r llall, ond siaradwn gryn lawer trwy y wasg, ac y mae ei ffrwyth hi at wasanaeth pawb. Anfynych iawn iawn y cwrddais a dyn yn gwneyd cyfiawnder â ni; gan y desgrifiad a roddai ef o honom cawn i fy synu a'm brawychu lawn cymaint ag yntau. Ac ni fyn bagad o'r dynion hyn gymeryd eu dodi ar yr iawn gan rai yn gwybod yn well. Maent hwy yn gwbod yn well na chwi eich hun pa beth ydych yn gredu. Mae cwrdd ag Undodwr gwirioneddol yn eu gwneyd yn anesmwyth am nad yw yn ateb i'w hanferthlun hwy. Maent yn wastad yn dwyn i fy nghof hanesyn a adroddir gan Plutarch am ryw baentiwr anffodus, yr hwn oedd wedi tynu llun ceiliog mor fongleraidd fel nas gallai oddef gweled giar na cheiliog yn d'od yn agos na wnai ei orau i'w hymlid ymaith, rhag y buasai rhywun yn cael ei arwain i wneyd cymhariaeth rhyngddynt a'r ceiliog a baentiasai ef. Ac felly ni fyn y dynion hyn gael eu haflonyddu yn eu tybiau rhyfedd o anghyfiawn am danom. Eu rhagfarn a dynodd y darlun iddynt, ac nid ydynt foddlawn fod ei anferthwch yn cael ei ddadguddio. Beth a ddywedir am y dynion a led-dybiant mai rhyw groes ryw yw Undodwr rhwng dyn a bwystfil, ac na synent ei weled yn gwisgo cyrn, ond a ryfeddant gael allan mai dyn yw fel hwythau a chyffelyb deimladau ganddo ag sydd ganddynt hwythau? Oni bai fod y mater mor ddwys, byddai yma brofedigaeth i weuu. Pa syniadau all fod gan y rhai hyn am y gwirioneddau a ddelir genym? A oes obaith y daw y rhai hyn ryw amser yn alluog i farnu rhwng peth a pheth? A geir cyfiawnder oddiar y fath ddwylaw? Cyhyd ag yr aroso y fath rwystrau ar y ffordd, pa wedd y gyrir cyfeiliornadau allan o'r tir? Er i'r personau hyn rodio yn nysglaerdeb llewyrch haul y canol-ddydd, eto gyda sach-len dew wedi ei thynu dros eu llygaid, mynant daeru na thywyna, ac nad oes iddynt oleuni i rodio ynddo.

Darfu i lawer, wedi concro eu rhagfarn mor bell ag i ddyfod i'n gwrando yn pregethu, neu i ddarllen ein golygiadau ar wirioneddau yr Efengyl, gael eu taro â syndod pa mor resymol, ac ysgrythyrol a defosiynol oeddym. "Gallem eistedd dan y fath weinidogaeth a hono yn barhaus gyda phleser," meddynt. "Nid yw eich llyfrau y cryg o ryfyg ac anghysondeb y clywsem eu desgrifio." Ond pa mor anaml y rhoir i ni achos o galondid a llawenydd gan y fath ymddygiadau, nad ydynt wedi'r cwbl, ond yr hyn y mae cyfiawnder a thegwch yn ei ofyn! Pa mor anfynych y cwrddwn ag yspryd o ymofyniad ac awydd am y gwirionedd, parod i adael heibio yr hyn nad oes brawf i'w gynal, i ymwrthod â thraddodiad os dim ond traddodiad, nad pa mor hen ac anrhydeddus, ac i roesawu goleuni gwell gyda breichiau agored? Yr wyf yn gwybod nad ar unwaith y symudir hen ddaliadau wedi eu "barfu yn barchedig a mwswm oesoedd," ac na chwymp delwau dychymygg dynol mewn un dydd, ac na fydd i Undod Duw ymdaro yn well na gwirioneddau eraill, wrth dynu yn erbyn llif rhagfarnau yr oes. Ond y mae genym hawl i alw ar ddynion i feddwl a chwilio drostynt eu hunain, yn enwedig y rhai a alwant eu hunain yn Grist'nogion. Nid heb y goreu o seiliau yr ydym yn galw ar y cyfryw i ymddiosg o bob culni ac ofn, a phwyso eu tybiau yn nghlorian gair Duw a rheswm. Mae "Chwiliwch yr Ysgrythyrau" yn gynghor mor briodol yn awr ag ydoedd gynt. I ganlynwyr Iesu Grist, mae "na fernwch" yn galed a dallbleidiol y rhai a wahaniaethant oddiwrthych, yn ewnio yn glir ac awdurdodol yn awr fel cynt. Ac nid yw y cyfarwyddyd

apostolaidd wedi myned ddim yn llai yn ei gyfaddasrwydd a'i ragoroldeb—"Profi pob peth a dal ar yr hyn sy dda." Ymofynydd yw pob gwir Gristion. Nid yw yn credu ei fod yn anffaeledig, nac eto wedi cyrhaeddyd terfynau eithaf gwybodaeth. Yr hyn o wirionedd a fedd fel cynyrch ei ymchwil a'i ymdrech bersonol, mae ganddo olwg anwyl arno; ond nid yw mor rhyfygus a meddwl fod yr holl wirionedd yn ei feddiant. Po aeddfedaf ei alluoedd, pa fwyaf ei gyfleusderau, po ddyfalaf ei ymofyniad, cred yn llawen y cwyd o hyd i uwch a helaethach golwg ar wirionedd Duw. Yn nglŷn a'r hyn a ddeil, mae yn barod i addef gyda gwylder y gall ac y rhaid fod llawer o amherffeithrwydd yn gymysgedig, a'i ymgais yw myned rhagddo at yr hyn sy fwy rhagorol. Nid yw yn bwrw mai anysgogrwydd cyndyn yw cysondeb, eithr yn hytrach mai cynydd a chychwyniad graddol yw, pan y mae dyn yn esgyn o radd i radd gan basio trwy wahanol gyflyrau, fel y gwna yr eilir *(butterfly)* trwy ei rhai hi, fel ag i gyrchu yn nes nes at eithafnod ei fodoliaeth mewn gwybodaeth a phob rhinwedd.

Pa beth sydd a fyno hyn oll ag athrawiaeth yr Undod? Llawer i'm golwg i. Oblegyd pe teimlai dynion fod arnynt angen am fwy o wybodaeth chwilient am dani, ac ni fyddai llonyddwch i'w hyspryd nes llwyddo, ac ni edrychent ar ddim rhy hen na chysegredig i fod yn destunau ymchwil; yn hytrach po fwyaf cysegredig, mwyaf yr ymdrechant i gyrhaedd syniadau teilwng o barthed iddo. Ceir rhai yn foddlawn iawn i chwilio i mewn i lawer o bethau, ond iddynt bod yn bynciau sylfaenol, fel eu gelwir; ond ai nid yma y dylai dyn fod ar ei eithaf, yn gymaint ag yw y sylfaen o fwy pwys na'r oruwchadeiladaeth? Ac y mae Undod diranedig Duw, yn un o bynciau sylfaenol crefydd, ïe, y mwyaf sylfaenol o honynt oll. Ac yma difrawder a dystawrwydd, neu ymhongarwch rhagfarnllyd a gyfarfyddir amlaf. I gadarnhau yr athrawiaeth o Dri o Bersonau nid oes dim tir newydd yn cael ei dori. Ni ddygir yn mlaen ond gwrthddadleuon wedi eu hateb lawer gwaith drosodd, neu adnodau y dangoswyd dro ar ol tro i foddlonrwydd y dysgedig a'r goleubwyll eu bod naill ai wedi eu llygru, neu yn sefydlu rhyw osodiad arall yn hytrach. Ond i'r rhagfarnllyd mae hyn oll fel pe na buasai. Mynir bod ar ol beirniadaeth oleuedig yr oes ac adgyfodir ganddynt yr hyn y tybiesid ei fod wedi ei gladdu am byth. Mae yn wir na feiddia neb mwyach, ond rhyw un fo yn mhell ar ol yn nghynffon ei oes i godi i fynu y "Tri Thyst," ond gwneir hyn â manau eraill ag ydynt wedi eu diarddel gan y beirniaid mwyaf medrus, hyd yn oed yn mhlith y Trindodiaid eu hunain. Paham na wnai eu blaenoriaid hyspysu y werin Drindodawl o sefyllfa pethau? Paham na ddangosent barodrwydd i wneyd yn gyhoeddus ffrwyth yr ymchwiliadau diweddaraf yn mherthynas i'r testunau y gorphwysir cymaint arnynt fel colofnau athrawiaeth y Drindod? A oes rhywbeth wedi cael ei wneyd ganddynt tuag at hyspysu y werin o'r dynged y mae llawysgrif Sinai, a ddarganfyddwyd gan Tischendorf yn debyg o weini ar fagad o'r testunau hyn? Ai wrth nerth llef a llafur yr Undodiaid yn unig y bydd rhaid i'r diwygiadau hyn gael eu cydnabod yn Nghymru? Os taw, fel nad yw yn annhebyg hyd yn hyn, ai nid naturiol casglu fod gan ragfarn lawer i'w wneyd tuag at barhau yr athrawiaeth o Dri yn Un, a chadw'r byd mewn tywyllwch yn mherthynas iddi?

J. W.

LLYTHYR CYNGOR ODDIWRTH MR. WILLIAM PENN AT EI WRAIG A'I BLANT.

Mr. Gol.,—Os barnwch yr un peth a mi gyda golwg ar y llythyr canlynol, chwi farnwch ei fod yn werth ei argraphu yn yr Ymofynydd. Y mae, fel y dywed awdwr cofiant y gwr enwog, yn "dlws *(beautiful)* iawn oherwydd y symlrwydd a'r yspryd patriarchaidd yn yr hwn y mae wedi ei ysgrifenu." Ac fel y dywed un arall, "y mae yn cynnwys trysor o ddoethineb moesol ac efengylaidd." "Gwyddom, trwy brofiad," meddai golygydd y *Christian Reformer* (1815), "ei fod yn gafaelu yng nghalonnau plant, ac nis gallwn wasanaethu ein darllenwyr yn well na thrwy gynghori iddo i gael ei ddarllen yn aml mewn teuluoedd, pan byddo rhieni a phlant wedi cydgwrdd, ar y Suliau, ac ar brydiau eraill, i'r diben pendant o wneuthur daioni i eneidiau y naill y llall."

Cyn rhoddi y llythyr, feallai y caniattewch i mi yn gyntaf, Mr. Gol., i ddywedyd wrth y rhai hynny o'ch darllenwyr lluosog, y rhai nad ydynt yn gwybod eisoes, pwy ydoedd William Penn. Wel, yr oedd yn fab i W. Penn, *Vice-Admiral* Prydeinig, ac fe gafodd ei eni yn Llundain yn 1644. Er yn fachgen dangosai dueddiad cryf at benboethni crefyddol,* yr hwn a gynnyddodd etto yn fwy pan oedd yn y Brif-Athrofa yn Rhydychain, yr hyn a barodd i'w dad ei ddanfon am ychydig amser i Paris. Wedi dychwelyd o Paris, ymwelodd a'r Iwerddon, ac yno, yn y flwyddyn 1666, ymunodd a sect y *Cwacers*. Er gwaethaf dirmyg ac erledigaeth y cyhoedd, er gwaethaf anfoddlonrwydd a digter ei dad, fe ddaeth heb fod yn hir, trwy ei ysgrifeniadau a'i bregethau, yn un o amddiffynwyr mwyaf selog y sect erlidiedig hon.

Yn y flwyddyn 1668, cyhoeddodd ei Draethawd nodedig, "Y sylfaen dywodlyd wedi ei siglo," yn Llundain; a thrwy hynny fe achosodd gynhwrf mawr iawn. Yn y traethawd hwn y mae yn gwrthwynebu y prif athrawiaethau poblogaidd, y Drindod, yr Iawn, &c. Fe dynnodd gymmaint o sylw a digofaint trwy hyn, fel y cafodd ei daflu i garchar, trwy warant wedi ei arwydd-nodi gan Lord Arlington, y prif *Secretary of State*, o achos y "tramgwydd a roddodd i rai ag oedd bryd hynny wrth y llyw yn yr Eglwys."

Yn ystod ei garchariad y mae'n ymddangos ei fod yn cael ei gadw "mewn caethiwed cyfyng, yr oeddent hyd yn oed yn naccau ymchwiliadau ei gyfeillion." "Ond etto," meddai ei fywgraffydd, "ni chyrhaeddodd ei elynion eu hamcan; oblegid pan dywedwyd wrtho, ychydig amser wedi hynny fod Esgob Llundain (Dr. Henchman) yn penderfynu y cawsai alw yn ol yn gyhoeddus yr hyn oedd yn hereticaidd yn ei lyfr, neu ynte farw yn garcharor, attebodd fel yma: "Y mae hyn oll yn dda: buasai yn dda gennyf pe dywedasent hynny wrthyf o'r blaen, canys y mae y disgwyliad am *ryddhad* wedi gosod rhwystr ar beth o'm gorchwylion. †Gelli ddywedyd wrth fy nhad, yr hwn, mi wn, a ofyn i ti y geiriau hyn, y ca *fy ngharchar* fod yn *fedd i mi*, cyn yr ysgogaf un iot; canys nid ydyw fy nghydwybod mewn rhwymau i un dyn marwol; nid oes achos i mi ofni; *gwna Duw iawn am y cyfan*. Y maent wedi camsynied am danaf; nid wyf yn prisio dim am eu bygythion na'u penderfyniadau; oblegid cânt wybod y gallaf flino eu malais a'u croesineb; ac ynof fi y ea pawb weled *penderfyniad* uwchlaw *ofn;* cydwybod uwchlaw creulondeb; a siommiant wedi ei osod ar eu holl amcanion, trwy yspryd

* Dr. Beard. † Y mae y Cwaceriaid bob amser yn galw eu gilydd yn *ti* a *tithau*.

amynedd, cydymmaith pawb o gorlan drallodedig yr Iesu bendigedig, yr hwn ydyw awdwr a pherffeithydd y ffydd sydd yn gorchfygu y byd, ïe, angau a'r bedd hefyd. Ni chyrhaeddwyd erioed bethau mawr a da heb golled ac anhawsderau. Rhaid i'r hwn sydd yn dymuno medi heb lafurio, i ddiffygio gyda'r gwynt, a threngu mewn siommedigaethau; ond ni syrthia flewyn o'm gwallt i, heb Ragluniaeth fy Nhad yr hwn sydd dros bawb."

Yn ystod y carchariad caethiwus yma, fe gyrhaeddodd yr wbwb fawr a gyfodwyd yn ei erbyn, glustiau Penn, neu yn hytrach feallai ei lygaid, a thueddwyd ef i ysgrifenu traethawd bychan, yr hwn a alwai efe yn amddiffyniad *(apology)* o'r blaenaf,* nid gyda bwriad i dynnu dim yn ol o'r athrawiaethau hynny ag oedd efe wedi proffesu mor ddiweddar i osod i lawr ar seiliau ansyfladwy yr Ysgrythyr a rheswm cywir, ond i lanhau ei hunan od iwrth y gwaradwyddiadau a fwriwyd arno am ysgrifenu y "Sylfaen dywodlyd wedi ei siglo."

"Yn ei *apology*," meddai ei fywgraffydd, "amddiffynodd ei hun mor llwyddiannus, fel y cafodd ar fyr wedi iddo ei gyhoeddi, ei ryddhau o'r carchar, lle yr ydoedd wedi bod am saith mis." Gannad pa mor gynted ar ol cyhoeddiad y traethawd amddiffynol hwn, y cafodd efe ei ryddhau, ymddengys oddiwrth ei hanes ef ei hun nad oedd dim a fynnai yr amddiffyniad ag achos ei ryddhad ef. Nis gellit gostegu llid ei erlidwyr, er eu bod yn proffesu eu hunain yn Brotestaniaid, mor hawdd a hynny. Ac ni fuasai y traethawd hwnw, gannad pa mor ffafriol bynnag yr ymddengys ei fod i'r dybiaeth Sabeliaidd, yn debyg o ddwyn oddiamgylch effaith o'r fath. Buasai'r clod uchel a roddir ynddo i Socinus nid yn unig oherwydd ei "dalentau, ei ddoethineb, ei ddifrifwch, a'i ymddygiad da," ond fel yn meddu, "*mewn llawer o bethau, ar olwg mwy clir*" ar wirionedd crefyddol "*na'r mwyaf o'i gyfoedion*," —buasai hyn, meddaf, yn fwy tebyg o ennyn nac o esmwythau yspryd annioddefgar dynion o'r fath.

Nid oedd Penn ddim yn ddyledus i hynawsedd y dynion yma am ei ryddhad, ond i gyfryngiad *(interposition)* clodadwy y *Duke of York*, wedi hynny Iago II, fel yr ymddengys oddiwrth lythyr a ysgrifenwyd gan Penn (dyddiedig Hyd. 24, 1688,) at W. Popple, Ysw., yn yr hwn dywed Penn, "At hyn, gadewch i mi i ychwanegu y berthynas oedd rhwng fy nhad (h.y., *Admiral* Penn, yr hwn a fu farw Medi 16, 1670,) a gwasanaeth y brenin hwn, ei ffafr neillduol yn dwyn oddiamgylch fy rhyddhad i allan o Dwr Llundain yn 1669, deisyfiad gostyngedig fy nhad arno, ar ei wely angau, i'm diogelu i rhag yr anhawsderau a'r trallodau ag y gallai fy ngolygiadau fy ngwneuthur yn ddarostyngedig iddynt, a'i addewid caredig ynteu i wneuthur hynny, a'r cyflawniad cywir o hynny, o'r munud y gwnaethum gyfarchiad atto."

* Os ydyw yr hanes uchod yn gywir nis gwyddom sut y gallasai Dr. Priestley ysgrifenu fel y canlyn:—"Wedi ei osod yn y carchar, beth bynnag, am y gwaith canmoladwy yma, ymddygodd yn anrheilwng o gadernid Crist'nogol, trwy esponio ymmaith ei feddwl mewn darn arall a alwyd yn 'Diniweidrwydd a'i gwyneb agored,' er caffael ei rhyddid. Bydded i ni dduilyn esiampl y gwr mawr hwn trwy wneuthur olrheiniad rhydd a manwl i athrawiaethau yr Efengyl, a chyfrannu i eraill pa oleuni bynnag y byddom yn alluog i gael i'n hunain; ond na fydded i ni ei efelychu ei yn ei wendid, a chael ein dylanwadu gan ofn dyn, mewn peth sydd yn perthyn i Ddaw a chydwybod."—Vol. xvi., p 485.

Y mae Macaulay hefyd, yn ei "*History of England*," wedi amheu rhagoroldeb ymarweddiad Penn, ac y mae W. E. Forster wedi cyhoeddi llyfryn i amddiffyn Penn oddiwrth gyhuddiadau yr hanesydd enwog.—Gwel Dr. Beard's Biog. Dict., *Erthygl Penn*.

Wedi iddo gael ei ryddhau o'r carchar, aeth gyda *Fox ar ei deithiau trwy Holland a Germany. Dieth Penn yn ol pan clywodd fod ei dad yn glaf, ac fe wnaethpwyd cymmod rhyngddynt ar wely angau y tad. Oherwydd y gorthrymderau a'r erledigaethau ag oedd y Cwacers yn ddarostyngedig iddynt, llawer o honynt yn cael eu taflu i garchar, ac yn cael eu gosod yn Noddfäau'r Gorphwyllog *(Lunatic Asylums)*, ac oherwydd y dioddefiadau yr oedd efe wedi dwyn arno ei hunan trwy amddiffyn egwyddorion rhyddid crefyddol o blaid y *Roman Catholics* gormesedig, penderfynodd Penn, "dyn," meddai Dr. Hase yn ei † "*History of the Christian Church*," "teilwng o'r goron yn gystal a'r groes,"§ i sefydlu cartref i'w gyfeillion yn y ffydd, yn gystal ac i ryddid crefyddol yn gyffredin. Prynodd randir helaeth ar y Delaware. Yn 1681 aeth ef ynghyd ag ychydig gyfeillion drosodd a sefydlasant Dalaith *Pennsylvania*. Ar ei diriad yno yn 1682, ffurfiodd gynllun llywodraeth, gosododd i lawr sylfeini Philadelphia, dilëodd gaethwasaeth yn y Dalaeth, ac yna dychwelodd i Loegr i ymdrechu sicrhau i'w gydgredinwyr yr un rhyddid yn y wlad honno. Yn 1689 gwelodd gyflawniad ei amcan yn yr "*Act of Universal Toleration.*" Yn 1699 ymwelodd a Phensylvania drachefn, lle y cafodd fod llwyddiant a dedwyddwch ei sefydliadau yn cael eu bygwth gan y llywodraeth, er attal hynny dychwelodd etto yn 1701 i Lundain.

Wedi hynny ymneillduodd yn hollol oddiwrth fywyd cyhoeddus, ond oherwydd sŷrthio o hono i amgylchiadau isel, gorfu arno er siomedigaeth mawr iddo ei hun a'i frodyr o'r un ffydd i wystlo *(pledge)*, ac yn 1712 i werthu ei dalaeth i'r Llywodraeth Britanaidd. Felly y collodd Penn ei hawl yn nhrefedigaeth Pennsylvania, yr hon a fu "am hir amser yn gawell rhyddid i'r African ac i'r byd,"‖ a'r hon a barha i fod yn goffadwriaeth am dano ef, pan byddo peiramidau'r Aipht wedi myned yn ysglyfaeth i gilddanedd amser.

Bu farw Penn yn 1718 yn Ruscombe yn Berkshire.

Y mae arnaf ofn Mr. Gol., fy mod gwedi gwneuthur penbwl trwy wneuthur y rhagymadrodd yn hwy fe ddichon na'r llythyr, ond wele fe yn awr yn canlyn :— S.

Fy Anwyl Wraig a'm Plant,‡—

Y mae fy nghariad, yr hwn nid ydyw na mor na thir, nac angeu ei hunan yn alluog i'w ddiddymmu na'i lleihau tuag attoch chwi, yn anwylaidd iawn yn ymweled â chwi gyda chofleidiadau tragywyddol, ac efe a erys gyda chwi dros byth: a Duw fy mywyd a fyddo yn gwylied drosoch chwi, ac yn eich bendithio chwi, ac yn gwneud i chwi bob daioni yn y byd hwn ac am byth. Y mae rhai pethau yn gorwedd ar fy yspryd i'w gadael gyda chwi yn eich gwahanol sefyllfaoedd, fel yr ydwyf i un yn wr, ac i'r lleill yn dad, os digwydd na fydd i mi byth mwy i gael eich gweled yn y byd hwn.

* George Fox ydoedd sylfaenydd sect y Cwacers: cafodd ei eni yn Drayton yn Leicestershire yn 1624. Cafodd ef a'i ganlynwyr ei galw yn Gwacers neu Grynwyr gyntaf yn Derby, o ran oddiwrth y ffordd neillduol oedd ganddynt o bregethu, ac o ran oddiwrth eu bod yn galw ar yr awdurdodau i grynu ger bron Duw. Bu farw Fox yn 1690.—*Dr. Beard.*

† "Egwyddor hanfodol eu ffydd ydoedd fod pob peth o gymmeriad crefyddol mewn dyn yn tarddu oddiar weithrediad uniongyrchol Yspryd Duw, yr hwn a fuasai yn dyfod at bawb a arosai yn dawel am dano."—*Dr. Hase.*

§ Enw un o lyfrau Penn ydyw "Dim Croes, dim Coron."

‖ Dr. Hase.

‡ Ysgrifenodd ef pan oedd ar ymadael a'i wraig a'i blant i fyned tua Phennsylvania.

Fy anwyl wraig! cofia mai tydi ydoedd cariad fy ieuenctyd, a mawr lawenydd fy mywyd; yr anwylaf yn gystal a'r teilyngaf o'm holl gyssuron daearol; a rheswm y cariad hwnnw oedd dy ragoriaethau tufewnol yn hytrach na'th ragoriaethau allanol, etto yr oedd y rhai yma yn fawr ac yn lluosog. Fe wyr Duw, a gwyddost tithau hefyd, y gallaf fi ddywedyd mai ieuad ydoedd o wneuthuriad Rhagluniaeth; a delw Duw ynom ein dau oedd y peth blaenaf, a'r addurn mwyaf hawddgar a dengar yn ein llygaid. 'Nawr, gan fy mod i'th adael, a hynny heb wybod pa un a gaf fi etto byth dy weled, cymmer fy nghyngor i'th fynwes, a thriged gyda thi yn fy lle i tra y byddot ti byw.

Yn gyntaf: Triged ofn yr Arglwydd a *zel* a chariad tuag at ei ogoniant ef yn helaeth yn dy galon, a gwilia am ddaioni i ti ac i'th blant a'th deulu anwyl, fel na chaffo dim ysgafn, anfoesol, neu ddrwg ei gyflawni: neu ynte anfoddlonir Duw, a bydd edifar ganddo am y drwg a fwriadai wneuthur i ti ac i'th blant.

Yn ail: Bydd ddyfal mewn cyfarfodydd i addoliad a galwedigaeth; cyffröa dy hunan ac eraill yn hyn; dy ddyledswydd a'th le di ydyw: cadwer cyfarfodydd unwaith y dydd yn y teulu i ddiisgwyl wrth yr Arglwydd, yr hwn sydd wedi rhoddi i ni lawer o amser i'n hunain: ac, fy anwylyd, er gwneuthur dy fatterion teuluaidd yn rhwydd i ti, rhanna dy amser, a bydd reolaidd; y mae yn hawdd ac yn felus; fe alluoga dy ymneilluedd *(retirement)* di i wneuthur hyn; fel yn y boreu, i edrych ar ol goruchwylion y tŷ, a'i osod fel yr ydwyt yn dymuno, gan weled fod pob peth mewn trefn; fel y byddo i bob peth i gyffro trwy dy gynghor di, ac i ti i roddi cyfrif bob nos. Yr amser at waith, at gerdded, at fwyd, wedi ei nodi allan mor agos ag y dichon fod: na flina dy hunan gyda gweision na morwynion esgeulus; hwy'th ddodant di allan o drefn, yn hytrach tâl hwynt, a gad iddynt fyned i ffordd, os na ymddygant eu hunain yn well ar ol dy rybuddion. Hyn sydd oreu er mwyn gochel llawer o eiriau, y rhai ydynt mi wn yn clwyfo yr enaid ac yn anfoddloni'r Arglwydd.

Yn drydedd: Gwna gyfrif o'th ardreth *(income)*, ac edrych faint y mae yn ddod bob dydd; trwy hyn gelli fod yn sier ei bod yn dy olwg ac yn dy allu i gadw o fewn cwmpas: ac yr ydwyf yn deisyf arnat i fyw yn gynnil, nes y byddo fy nyledion i wedi eu talu, ac wedi hynny helaetha fel y gwelot yn gymmwys. Cofia esiampl dy fam pan oedd ysprydlonedd cyhoeddus dy dad wedi diffrwytho ei ystât (yr hwn yw fy nghyfliwr i). Gwn dy fod yn caru pethau plaen, a'th fod yn groes i rwysg a mawredd byd; ardderchawgrwydd naturiol i ti. Yr wyf yn ysgrifennu nid fel yn amheuol, ond i'th fywioccau di, er fy mwyn i, i fod yn fwy gwyliadwrus yn hyn; gan wybod y bendithia Duw dy ofal, a'th blant anwyl a thithau am hynny. Y mae fy meddwl yn aros yn brysur ar ddywediad dy dad, "Nid wyf yn dymuno golud ond i beidio a bod mewn dyled;" ac yn wir cyfoeth ydyw hyn, ac y mae mwy na digon i fyw yn fagl ag sydd yn cael ei ddilyn gan drallodau lawer. Nid oes eisiau i mi i ddywedyd, bydd ostyngedig, yr ydwyt feily; nac yn addfwyn ac amyneddgar, oblegid hyn yw'th dymmer naturiol: ond yr ydwyf yn deisyf arnat, bydd yn aml yn dy ystafell gyda'r Arglwydd, ac ymogela rhag cyfeillach gormesol. Cadw hwynt at hyd braich; canys rhoddi ymmaith ein awdurdod ydyw, ïe, a'n hunain hefyd, i feddiant arall; gall yr hyn fyddo yn ymddangos yn hyfryd ar y cyntaf droi allan yn iau ac yn faich rhy galed a rhy drwm yn y diwedd. Am hynny cadw awdurdod drosot dy hunan, a bydded dy blant, cyfarfodydd da, a'th gyfeillion, yn bleser dy fywyd.

Yn bedwerydd: Ac yn awr, anwylaf, gad i mi gyflwyno i'th ofal fy mhlant anwyl, y rhai ydynt yn cael eu caru yn helaeth gennyf, fel bendithion yr Arglwydd, a gwystlau gwerthfawr ein serch a'n cariad y naill at y llall. Uwchlaw pob peth, ymdrecha eu dwyn i fynu i garu rhinwedd, a'r ffordd sanctaidd rinweddol honno o honi, yn yr hyn yr ydym ni wedi byw, fel na byddo i'r byd yn un modd i gael mynediad i'n teulu. Byddai yn well gennyf eu bod yn cael eu dwyn i fynu yn wledig nac yn wych gyda golwg ar ymarweddiad allanol; etto yr ydwyf yn caru hynawsedd ynghyda difrifwch, a llawenydd wedi ei dymheru â sobrwydd. Y mae crefydd yn y galon yn arwain i wir foesgarwch, gan ddysgu gwrrywod a bennywod i fod yn dirion ac yn addfwyn yn eu hymddygiad. Perffeithiad *(accomplishment)* gwir deilwng o glod.

Yn bummed: Yn nesaf dwg hwynt i fynu mewn cariad y naill at y llall; dywed wrthynt mai hyn yw'r gorchymyn a adewais i ar fy ol; ac mai hon yw'r ffordd i gael

cariad a bendith Duw arnynt; ac hefyd beth ydyw rhan yr hwn sydd yn cashau ac yn galw ei frawd yn ffol. Gwahana hwynt weithiau ond nid yn hir, a chaniatta iddynt i anfon ac i roddi un i'r llall bethau bychain i wneuthur un yn anwyl i'r llall. Bydd hael tuag at eu dysgeidiaeth. Paid arbed unrhyw gost; oblegid trwy'r fath gynnildeb y mae'r hyn sydd wedi ei ennill yn myned i golli; ond bydded yn wybodaeth defnyddiol, yn fath ag a fyddo yn gysson a gwirionedd a duwioldeb; nid yn meithrin ofer ymarweddiad neu feddwl segur; ond y mae cywreinrwydd ynghyd a diwydrwydd yn dda i'r corph ac i'r meddwl hefyd. Yr wyf yn *recommendo* y rhannau defnyddiol o'r *mathematics*, megis adeiladu tai a llongau, mesuryddiaeth, deioliaeth, mordwyaeth; ond amaethyddiaeth sydd yn neillduol gennyf mewn golwg; bydded fy mhlant yn amaethwyr ac yn hwswiod; y mae yn ddiwyd, yn iachus, yn onest ac o esiampl dda; fel Abraham a'r hynafiaid sanctaidd gynt, y rhai a ryngasant fodd Duw ac a dderbyniasant air da. Y mae amaethyddiaeth yn arwain dyn i ystyried gweithredoedd Duw a natur, i ystyried pethau sydd yn dda, ac yn difyru'r meddwl oddiwrth gael ei gymmeryd i fynu gan gelfyddydau a dychymmygiadau ofer byd gloddestgar. Y mae yn beth i'w ganmol yn nhywysogion yr Almaen a phendefigion y wlad honno, eu bod i gyd yn dwyn eu plant i fynu at ryw alwedigaeth ddefnyddiol. Yn hytrach cadw ddyn cywrain yn y tŷ i'w dysgu, na'u danfon i'r ysgolion—y mae gormod o argraffiadau drwg yn gyffredin yn cael eu derbyn yno. Bydd yn siwr o sylwi ar eu hanian, a phaid a'u croesi mewn perthynas i ddysgeidiaeth: paid gadael iddynt i aros yn rhy hir gyda'r un peth, ond bydded eu cyfnewidiad yn gymmeradwy, a bydded yn eu holl ddifyrwch ychydig lafur corphorol.

Pan byddont wedi tyfu yn fawr, bydd yn fwyaf gofalus am danynt, oblegid pryd hynny y mae mwyaf o faglau y tu fewn a'r tu allan. Pan mewn oedran priodi, gofala fod ganddynt bersonau teilwng yn eu golwg, rhai o fywyd da, o air da am eu duwioldeb a'u deall. Nid wyf yn chwennych golud, oud digonolrwydd, a bydd yn sicr fod eu cariad yn anwyl, ac yn wresog y naill tuag at y llall, fel y byddo dedwyddwch iddynt. Yr wyf yn dymuno iddynt beidio a phriodi a pherthynasau daearol a thrachwantus; ac ymogela rhag tyrfaoedd trefydd a theyrnasoedd; y mae'r byd yn chwannog o lynu'n agos wrth y rhai hynny sydd wedi byw ac wedi casglu cyfoeth yno: bywyd a sefyllfa wledig yr wyf fi yn ei leicio oreu i fy mhlant. Y mae'n well gennyf drigfan gweddaidd o werth cant punt yn y flwyddyn nag un o werth mil yn Llundain neu ryw le cyffelyb mewn ffordd o fasnachu.

Yn ddiweddaf, fy anwylyd, ymdrecha eu magu yn ostyngedig i'r Arglwydd, ac i'w oleuni bendigedig, ei wirionedd a'i ras ef yn eu calonnau, yr hwn ydyw eu Creawdwr, a'i ofn ef a erys gyda hwynt yn eu tyfiad i fynu. Hyfforddia blentyn (medd y gwr doeth) ym mhen ei ffordd, a phan heneiddia nid ymedy a hi. Yn nesaf, ufudd-dod tuag attat ti eu hanwyl fam; a hynny nid o ddigllonrwydd ond er mwyn cydwybod; dwg hwnyt i fynu yn haelionus tuag at y tlawd, yn dosturiol tuag at bawb; a bydded i'm Duw dy wneuthur yn fendith, a rhoddi i ti gyssur yn ein plant anwyl; ac mewn henaint dy gymmeryd i lawenydd a dedwyddwch y cyfiawn (lle ni bydd angau i'n gwahanu) am byth!

Ac yn awr fy anwyl blant, rhoddion a thrugareddau Duw eich tyner dad, gwrandewch fy nghyngor, a gosodwch ef yn eich calonnau; cerwch ef yn fwy na thrysor, a dilynwch ef, a chwi a gewch eich bendithio yma, a dedwyddwch yn ol llaw.

Yn y lle cyntaf, cofiwch eich Creawdwr yn nyddiau eich ieuenctyd.

Hyn oedd gogoniant Israel yn ail Jeremiah, ac O fel y darfu i Dduw fendithio Josiah oherwydd ei fod yn ei ofni Ef yn ei ieuenctyd! ac felly y gwnaeth i Jacob a Joseph a Moses. O fy mhlant anwyl, cofiwch ac ofnwch a gwasanaethwch Ef yr hwn a'ch gwnaeth chwi, ac a'm rhoddodd i a'ch anwyl fam i chwi; fel y byddoch byw iddo ef ac y gogoneddoch ef yn eich cenhedlaeth!

I wneuthur hyn yn nyddiau eich ieuenctyd ceisiwch yr Arglwydd fel y caffoch ef; cofiwch ei gariad mawr yn eich creu chwi, nad anifeiliaid, planhigion na cherrig ydych, ond ei fod wedi eich cadw chwi, ac wedi rhoddi i chwi ras y tu mewn, a chyfoeth y tu allan, ac wedi darparu yn helaeth ar eich cyfer. Cofiwch hyn yn eich ieuenctyd fel y caffoch eich cadw oddiwrth ddrygau'r byd; oblegid mewn oedran bydd yn anoddach gorchfygu ei demtasiynau. Am hynny, fy mhlant anwyl, ymgedwch

rhag pob rhith drygioni, cerwch a glynwch wrth yr hyn yn eich calonnau sydd yn dangos i chwi y gwahaniaeth rhwng drwg a da, ac yn dywedyd wrthych pan y byddoch wedi gweithredu ar fai, ac yn eich ceryddu am hynny. Goleuni Crist ydyw yr hyn a roddodd efe i chwi er eich cadwedigaeth. Os gwnewch hyn, a dilyn o honoch fy nghyngor, Duw a'ch bendithia yn y byd hwn ac a ddyry i chwi etifeddiaeth yn yr hwn a bery byth. Oblegid y mae goleuni yr Iesu o natur i wneuthur peth yn bur; y mae yn pereiddio y rhai hynny sydd yn ei garu ac yn gofalu am dano; ac nid ydyw byth yn gadael y fath, nes y byddo wedi eu dwyn hwy i ddinas Dduw, i'r hon y mae seiliau. O na fyddech wedi eich pereiddio â natur rasusol y goleuni hwn! Cuddiwch ef yn eich calonnau, a ffowch, fy mhlant anwyl, oddiwrth holl chwantau ieuenctyd: campau ofer, difyrwch a phleser y byd; gan brynu yr amser, oblegid y dyddiau sydd ddrwg! Yr ydych yn awr yn dechreu byw. Beth roddai rhai am eich amser chwi? O! gallaswn i fyw yn well, pe buaswn, fel chwi, ym mlodeu fy ieuenctyd. Am hynny cerwch ac ofnwch Arglwydd Dduw eich tad a'ch mam ymhlith ei bobl dirmygedig, fel yr ydym ninnau wedi gwneuthur; cyfrifwch ef yn anrhydedd i fod yn aelod o'r gymdeithas honno, ac etifeddion y gyfeillach fywiol honno, yr hon a fwynhëir yn eu plith; am gael prawf o hwn y mae enaid eich tad yn bendithio yr Arglwydd yn dragywydd.

Yn nesaf, byddwch ufudd i'ch mam anwyl, menyw, rhinwedd ac enw da yr hon sydd yn anrhydedd i chwi; oblegid nid oes neb yn ei hamser wedi rhagori arni am ei symlrwydd, ei huniondeb, ei diwydrwydd, ei dynoliaeth, a'i deall da; rhinweddau ag nad ydynt yn gyffredin ymhlith menywod o'i chyflwr a'i sefyllfa hi yn y byd. Am hynny anrhydeddwch a byddwch ufudd iddi hi, fy mhlant anwyl, fel yr hyn a ychwanego at gariad a mwyniant eich mam a'ch tad; ïe, cerwch hi hefyd, oblegid hi a garodd eich tad â chariad dwfn ac uniawn, gan ei ddewis ef o flaen llawer iawn o'i chariadon; ac er ei bod o gyfansoddiad gwanaidd, ac o yspryd ardderchog, etto ymddarostyngodd i weinyddu'r tynerwch a'r cariad mwyaf arnoch chwi, gan gyflawni y gweithredoedd mwyaf poenus yn ei gwasanaeth i chwi yn eich mabandod, megis mam a mammaeth hefyd. Yr wyf yn gorchymmyn, gerbron Duw, i chwi i anrhydeddu ac ufuddhau, caru ac ymgeleddu eich anwyl fam.

Yn nesaf, ymroddwch eich hunain i ryw lwybr bywyd gonest a diwyd, a hynny nid o drachwant brwnt ond er esiampl, ac er gochel segurdod. Ac os ydych yn newid eich cyflwr, ac yn priodi, dewiswch gyda gwybodaeth a chaniattad eich mam, os bydd yn fyw, neu eich ymgeleddwyr, neu pwy bynnag fyddo a gofal am danoch. Na ofelwch am degwch na chyfoeth, ond am ofn yr Arglwydd, a thymmer hawddgar a charuaidd, y fath a ellwch garu yn well na'r holl fyd, yr hon a wna eich anneddau yn bleserus ac yn ddymunol i chwi.

Ac wedi priodi, byddwch yn dyner, yn gariadus, yn amyneddgar, ac yn addfwyn. Byddwch byw yn ofn yr Arglwydd, ac efe a'ch bendithia chwi a'ch hiliogaeth. Byddwch yn sier o fyw o fewn cwmpas; peidiwch benthyca, na fyddwch dan ddyled i neb. Peidiwch distrywio eich hunain mewn caredigrwydd i eraill; oblegid y mae hynny yn myned tu hwnt i wir derfynau cyfeillgarwch, ac ni fydd un gwir gyfaill yn disgwyl y fath beth. Nid wyf yn gofalu am bethau bychain.

Na fydded i'ch diwydrwydd na'ch cynnildeb i fyned ymhellach nac er digonolrwydd bywyd, ac i wneuthur darpariad ar gyfer eich plant, a hynny mewn cymmedroldeb, os bydd i'r Arglwydd roddi peth i chwi. Yr wyf yn gorchymmyn i chwi i gynnorthwyo y tlawd a'r anghenus; bydded i'r Arglwydd i gael cyfran ewyllysgar o'ch cyfoeth er daioni y tylawd, yn ein cymdeithas ni yn gystal ag eraill, oblegid ei blant ef ydym ni oll; gan gofio "y neb a gymmero trugaredd ar y tlawd sydd yn rhoddi echwyn i'r Arglwydd." Bydded gennych wybodaeth dda am yr hyn sydd yn dyfod i mewn, fel y byddo gennych well trefu ar yr hyn sydd yn myned allan. Na cherwch arian na'r byd, defnyddiwch hwynt yn unig, a hwy a fyddant o wasanaeth i chwi; ond os cerwch chwi hwynt, chwi a'u gwasanaethwch hwynt, yr hyn a lygra eich ysprydoedd ac a anfoddlona yr Arglwydd.

Tosturiwch wrth y rhai sydd mewn trallod, a bydded gennych law i'w cynnorthwyo; gelliwch fod felly eich hunain; ac fel yr ydych yn mesur i eraill yr adfesura Duw i chwithau.

Byddwch ostyngedig a hynaws yn eich ymarweddiad; byddwch o ychydig eiriau yr wyf yn gorchymyn i chwi; ond bob amser gyda chymmwysder pan y byddoch yn llefaru, gan roddi gwrandawiad hyd y diwedd cyn y byddoch yn ymdrechu atteb, ac yna llefarwch fel pe byddech am berswadio ac nid twyllo.

Nac amherchwch neb, a pheidiwch dial yr amharch a wneir i chwi, ond maddeuwch fel y caffoch faddeuant gan eich Tad nefol.

Wrth wneuthur cyfeillion, ystyriwch yn gyntaf yn dda, a phan y byddoch wedi penderfynu, byddwch ffyddlon, heb fod yn anwadal gyda phob adroddiad, nac yn cilio mewn trallod, oblegid nid yw hynny yn gweddu i ddynion da a rhinweddol.

Byddwch wyliadwrus yn erbyn digofaint, peidiwch llefaru na gwneuthur dim mewn digofaint; canys fel meddwdod y mae yn gwneuthur dyn yn anifail, ac yn taflu dynion i anghyfleusderau enbyd.

Gochelwch wenieithwyr, oblegid lladron ydynt mewn twyll-wisg; y mae eu clod yn gostfawr, yn cael ei fwriadu i enill rhywbeth oddiwrth y rhai y maent yn cyfarch iddynt; hwy yw'r gwaethaf o greaduriaid; y maent yn dywedyd celwydd er mwyn gweniaeth ac yn gwneuthur gweniaeth er mwyn twyllo; a pheth sydd waeth, os credwch hwynt yr ydych yn twyllo eich hunain yn ofnadwy iawn. Ond y rhinweddol, er ei fod yn dlawd, cerwch ef, meithrinwch ef, a dewiswch ef. Cofiwch Ddafydd, yr hwn wrth ofyn i'r Arglwydd, "Pwy a drig yn dy babell; pwy a breswylia ym mynydd dy sancteiddrwydd?" sydd yn atteb, "Yr hwn a rodia yn berffaith, ac a wnel gyfiawnder, ac a ddywed wir yn ei galon; yr hwn y mae y drygionus yn ddirmygus yn ei olwg, ond a anrhydedda y rhai a ofnant yr Arglwydd."

Yn nesaf, fy mhlant, byddwch gymmedrol ymhob peth; yn eich bwydydd, oblegid y mae hyn yn feddyginiaeth trwy ragflaeniad; y mae yn cadw, ïe, yn gwneuthur dynion yn iachus a'u hiliogaeth hefyd. Y mae hyn mewn ychwanegiad at y fantais ysprydol y mae yn ei ddwyn. Byddwch hefyd yn sypl yn eich gwisgiadau; cedwch allan y chwant hwnnw sydd yn tra-arglwyddiaethu ar rai; eich rhinweddau fyddo eich addurniadau, gan gofio fod bywyd yn fwy na bwyd, a'r corph yn fwy na'r dillad. Bydded eich dodrefn yn syml ac o isel bris. Gochelwch goegedd, gloddest, a chybydd-dod. Darllenwch fy llyfr "Dim Croes, dim Coron." Y mae yno addysg. Gwnewch gyfeillach a'r rhai hynottaf am eu doethineb a'u duwioldeb; cedwch oddiwrth bob dynion drwg fel yr ydych yn dymuno am fendith Duw a chysur bywyd eich tad a'i weddiau with farw. Byddwch sicr na ddywedwch ddrwg am neb, dim hyd yn oed am y distadlaf, llawer llai am ein goreuon, megis ynadon, ceidwaid, hyfforddwyr, ynghyd a'r dysgawdwyr a'r henuriaid yng Nghrist.

Na fyddwch rodreswyr; peidiwch ymyred â matterion dynion eraill, ond pan byddo cydwybod a dyledswydd yn gofyn; oblegid y mae yn achos o drallodau, ac hefyd y mae yn anfoesaidd ac yn anweddaidd mewn dynion doeth.

Yn eich teuluoedd, cofiwch Abraham, Moses, a Joshua, ac uniondeb i'r Arglwydd; a gwnewch fel y mae gennych hwynt yn esiamplau.

Bydded ofn a gwasanaeth yr Arglwydd yn cael ei gefnogi yn eich teiau, a'r symlrwydd, a'r sobrwydd a'r cymmedroldeb hynny ymhob peth ag sydd yn gweddu i bobl dewisedig Duw; ac fel yr wyf fi yn eich cynghori chwi, gwnewch chwithau i'ch plant os dyry Duw blant i chwi. Ïe, yr wyf yn eu cynghori ac yn gorchymmyn iddynt fel fy hiliogaeth i, ar fod iddynt garu a gwasanaethu yr Arglwydd Duw â chalon uniawn, fel y byddo iddo ef eich bendithio chwi a'ch plant o genhedlaeth i genhedlaeth.

A chyda golwg arnoch chwi, y rhai ydych yn debyg o fod a rhan gennych yn Llywodraeth Pennsylvania, a'm rhannau i o Jersey ddwyreiniol, yn gyntaf, yn neillduol, yr wyf yn gorchymyn i chwi o flaen yr Arglwydd Dduw, a'i angylion sanctaidd, ar i chwi fod yn ostyngedig, yn ddiwyd, yn dyner, yn ofni Duw, yn caru'r bobl, ac yn casâu trachwant. Bydded i gyfiawnder i gael ei chwrs amhartïol, a'r gyfraith i gael llwybr rhydd. Er ei fod i'ch colled, nac amddiffynwch neb yn ei erbyn; oblegid nid ydych chwi uwchlaw'r gyfraith ond y gyfraith uwchlaw chwi. Byddwch byw, ynte, eich hunain y bywydau a fynnech i'r bobl fyw, ac yna bydd gennych hawl ac eofndra i gospi troseddwyr. Cedwch ar yr ysgwar, canys y mae Duw yn eich gweled; am hynny gwnewch eich dyledswydd, a byddwch sicr eich bod yn clywed a'ch clustiau eich hunain, ac yn gweled a'ch llygaid eich hunain. Na roesawch gynllwynwyr, a

pheidiwch cadw athrodwyr nac er mwyn elw nac er mwyn dial; nac arferwch ddichellion; na ffowch i unrhyw ddyfeisiadau er cynnorthwyo nac er mwyn cuddio anghyfiawnder: ond bydded eich calonnau yn uniawn gerbron yr Arglwydd, gan ymddiried ynddo ef, uwchlaw holl drefniadau dynion, ac ni bydd neb yn abl i niweidio nac i ddisodli.

O! y mae yr Arglwydd yn Ddiw cadarn, gall wneuthur beth bynnag a fynno; ac er nad ydyw dynion ddim yn ystyried hynny, yr Arglwydd sydd yn llywodraethu ac yn goruwchllywodraethu yn nheyrnasoedd dynion, efe sydd yn adeiladu, efe sydd yn tynnu i lawr. Myfi, eich tad, yw'r dyn a all ddywedyd, Y sawl a ymddiriedo yn yr Arglwydd ni waradwyddir. Ond Duw, yng nghyflawnder ei amser a wna ei elynion mewn heddwch ag ef ei hun.

Os ymddygwch eich hunain felly, ac felly ddyfod yn ddychryn i ddrwgweithredwyr, ac yn glod i'r neb a wnel ddaioni, Duw, fy Nuw i, a fydd gyda chwi mewn doethineb a meddwl cadarn, efe a'ch gwna yn offerynau bendigedig yn ei law er preswylio rhai o'r rhannau anghyfannedd hynny o'r byd, ag mae fy enaid yn eu chwennych yn fwy nag holl anrhydedd a chyfoeth bydol, yn gystal i chwi sydd yn myned, a chwi sydd yn aros; chwi sydd yn llywodraethu, a chwithau sydd yn cael eich llywodraethu, fel yn y diwedd, y caffoch eich cymmeryd gyda mi i orphwysfa Duw.

Yn ddiweddaf, fy mhlant, cerwch eich gilydd â gwir gariad anwyl, a'ch perthynasau anwyl o'r ddwy ochr, cymmerwch ofal i feithrin serch tyner yn eich plant at eu gilydd, gan fynych briodi o fewn eu cylch eu hunain ond tu allan i'r cyffiniau gwahanddedig yng nghyfraith Duw, ac felly i beidio a bod fel y byd anghofus ac annaturiol, yn tyfu allan o'u gwaeloliaeth, ac mor oered a dieithriaid: ond fel y mae yn gweddu i genedl gwir naturiol a Christnogol, y byddo i chwi a'ch plant ar eich ol i fyw yng nghariad pur a gwresog Duw tuag at eich gilydd, ac fel y mae yn gweddu i frodyr yn y berthynas ysprydol a naturiol.

Ac, fy Nuw, yr hwn sydd wedi fy mendithio â'i fawr drugareddau, o'r byd hwn yn gystal ag o'r byd nesaf, a fyddo gyda chwi oll, efe fyddo yn eich tywys a'i gynghor, yn eich bendithio ac yn eich dwyn i dragwyddol ogoniant! fel y byddo i chwi, fy mhlant anwyl, i ddysgleirio yn ffurfafen gallu Duw, gydag ysprydoedd bendigedig y cyfiawn, y teulu nefol hwnnw, yn ei foli ac yn ei fawrygu ef, Duw a Thad oll, am byth. Oblegid nid oes Dduw cyffelyb iddo ef; Duw Isaac, a Jacob, Duw y Prophwydi, yr Apostolion, a merthyron yr Iesu, yn yr hwn yr wyf yn byw, am byth.

Felly, ffarwel i'm tairgwaith anwyl anwyl wraig a'm plant.

Yr eiddoch, fel y mynno Duw, yn yr hyn nis gall dyfroedd ddiffoddi, nac amser anghofio, na phellder dreulio ymmaith, ond sydd yn para byth,

WILLIAM PENN.

Worminghurst, y pedwerydd o'r chweched mis, 1682.

RHAG-HANFOD CRIST.—LLYTHYR VIII.

MR. GOL.,—Yr ydym ymron cyrhaedd y porthladd ar y pwngc hwn etto. Nid oes ond dwy neu dair o adnodau i sylwi arnynt etto; y blaenaf o'r cyfryw yw 2 Cor. viii. 9, "Canys chwi a adwaenoch râs ein Harglwydd Iesu Grist, iddo ef, ac yntau yn gyfoethog, fyned er eich mwyn chwi yn dlawd, fel y cyfoethogid chwi trwy ei dlodi ef."

"Cyfoethog," medd Dr. Doddridge, "yng ngogoniant y byd nefol, ac mewn llywodraeth ac awdurdod oruchel yno, er hynny er eich mwyn chwi efe a ddaeth yn dlawd."

"Cyfoethog," medd Archesgob Newcome, "yng ngogoniant y natur ddwyfol, efe a aeth yn dlawd trwy gymeryd arno y natur ddynol, ac ymddangos mewn cyflwr isel."

Bengel.—" Y mae hyn (sef efe a ddaeth yn dlawd) yn awgrymu fawredd blaenorol yr Arglwydd."

Adam Clark.—"*Iddo, er ei fod yn gyfoethog.*] Meddianydd y nefoedd a'r ddaear, fel yr oedd yn Greawdwr: *er eich mwyn chwi a aeth yn dlawd*, efe a arfawysodd ei hun, ac a ddirisiedd ei hun, ac a gymerodd arno agwedd gwas, ac a ddarostyngodd ei hun i angau, ie angau'r groes; *fel y byddai i chwi trwy ei dlodi ef*—trwy ei ddarostyngiad a'i farwolaeth, *gael eich cyfoethogi*—adeniad yr etifeddiaeth a gollasoch, a chael eich cyfoethogi a phob gras perthynol i'w yspryd sanctaidd ef, a'ch dwyn yn y diwedd i'w ogoniant tragwyddol ef. Os nad oedd Iesu Grist, fel y taera rhai, ond *dyn yn unig*, ym mha ystyr y gallesid dywedyd am dano ei fod *yn gyfoethog?* Yr oedd ei *dduln* yn *dlawd* yn Bethlehem; yr oedd ei rieni yn dlawd iawn hefyd; ni fu ganddo *gyfiau ei hun* ddim meddiant ymhlith dynion, o'r *preseb* i'r *groes*; ac nid oedd ganddo ddim i'w roddi yn ei ewyllys ar ei farwolaeth ond ei *heddwch*. Ac ym mha ffordd y gallasai *dlodi* un dyn wneuthur lluaws yn *gyfoethog?* Y mae y rhai hyn yn ofyniadau, y rhai ar y dyb Sosiniaidd, ni ellir byth eu hatteb yn fodd aol." Felly Adam Clarke. Ceir gweled cyn terfynu p'un a ellir atteb gofyniadau o'r fath ai peidio.

Macknight.—"*Canys chwi a adwaenoch ddaioni ein Harglwydd Iesu Grist, yr hwn, er ei fod yn gyfoethog,* fel meddianydd yr holl fyd, er hynny, *er eich mwyn chwi bu farw mewn tlodi hotlol, fel trwy ei dlodi ef y byddech chwi gyfoethog,* mewn meddiant o'r holl fendithion sydd yn cael eu haddaw yn yr efengyl. Yr oedd Iesu Grist yn Arglwydd pob peth, oblegid trwyddo ef y creodd y Tad bob peth, ac erddo ef, ac a ddarostyngodd bob peth dan ei lywodraeth. Gan hynny, gallasai, pe dewisai, fyw yn yr urddas a'r cyfoeth mwyaf pan yn cyflawni ei weinidogaeth ar y ddaear. Neu gall *cyfoethog* arwyddoccau ei fawredd dechreuol." Felly ym marn Macknight yr oedd Iesu yn gyfoethog a thlawd ar yr un pryd.

Grotius.—"*Canys chwi a adwaenoch ras ein Harglwydd Iesu Grist.*] Haelioni Crist tuag attom ni, trwy esiampl yr hwn y dylem ninnau hefyd fod yn haelionus tuag at eraill. *Yr hwn er ein mwyn ni a ddaeth yn dlawd tra yr oedd yn gyfoethog.*] Hynny yw, pan yr oedd yn alluog trwy'r gallu hwnnw i wneuthur gwyrthiau o bob math, hyd yn oed cyfodi'r meirw, er hynny yr oedd ei berson mor isel, fel nad oedd ganddo yn wir un annedd o'i eiddo ei hun, Mat. viii. 20, a hynny o herwydd ei fod yn tueddu i'n hiechydwriaeth ni. *Havvi,* tlawd, a *dal,* gwan, enwau y Messiah. *Fel trwy ei dlodi ef y byddech chwi gyfoethog*]. Y gostyngeiddrwydd hynny o eiddo Crist, ynghyd ag ufudd-dod perffaith, oedd yr achos trwy yr hwn y'ch dygwyd chwi i wir gyflawnder. Derbyniasoch ddoniau'r Yspryd, chwi a dderbyniwch fywyd tragywyddol."

Y mae Rosenmüller yn meddwl fod yr ymadrodd, "*ag efe yn cyfoethog,*" yn cyfeirio at ogoniant a gwynfydedigrwydd yr Iesu cyn ei ymddangosiad yn y byd.

Dr. Priestley.—" Y mae'r Apostol yn cymmeradwyo haelioni eraill trwy esiampl Crist, am ras neu garedigrwydd yr hwn y mae efe yn siarad yma; oblegid er y gellir dywedyd ei fod yn *gyfoethog*, oblegid fod cyfoeth wrth ei arch ef, a holl alluoedd natur, yr hyn ymddangosodd yn helfa wyrthiol y pysgod, yn ei waith yn lluosogi lluniaeth ar ddau wahanol amser, ac yn talu'r deyrnged ag arian a gafwyd yng ngenau pysgodyn, er hynny dewisodd sefyllfa isel ac anghenus mewn bywyd, ac ni ddefnyddiodd erioed ei allu

gwyrthiol i gyflawni ei anghenion ei hun, nac i'w gynorthwyo mewn unrhyw anhawsdra, ond cyflwynodd ei hun a'i holl amser i ddaioni eraill. Nid oes un sail i gasglu fod yr Apostol yma yn ystyried Crist fel wedi bod yn gyfoethog yn un man o'i ar y ddaear. Nid yw yn dywedyd dim tebyg i hyn; ac felly, y mae casglu oddiwrth yr adran hon fod Crist yn bodoli cyn iddo gael ei eni, ac iddo adael sefyllfa raghanfodol ogoneddus i ddyfod i wasanaethu dynolryw yma, yn ymddifad o bob sylfaen."

Wakefield.—"Ystyriwch, frodyr, a dysgwch efelychu, gostyngeiddrwydd dwfn, caredigrwydd anhraethadwy, hunan-ymwadiad rhinweddol ein Harglwydd Iesu Grist. Er ei fod yn gyfoethog yng*h*ariad ei Dad, *yr anwyl Fab, yn yr hwn y cafodd Duw ei lwyr foddloni;* cyfoethog mewn doethineb a gwybodaeth, yn llefaru fel na lefarodd dyn erioed; cyfoethog mewn ardderchawgrwydd gwirioneddol, *yr hwn ni wnaeth bechod, ac ni chafwyd twyll yn ei enau;* cyfoethog mewn rhoddion a chyfraniadau nefol, oblegid *nid wrth fesur y rhoddwyd iddo ef yr Ysprvd*; er hynny ni roddodd ei fryd ar foddloni ei hun (Rhuf. xv. 3); ond a roddodd i fynu o'i fodd, er mwyn achub dyn truenus a phechadurus, bob mantais a phob cysur, i'r rhai a gallasai y rhoddion a'r doniau hyn roddi hawl resymol iddo. Dewisodd ef enw a swydd *Mab y dyn* o flaen anrhydedd a chyfleusderau brenhin (Ioan vi. 15): darfu i anwylyd yr Hollalluog ymddarostwng i fod yn *ddirmyg dynion, ac alltud y bobl*, y rhai a'i cyfrifent ef wedi ei daro gan Dduw, wedi ei gospi a'i ddwyn yn isel, am ei bechodau ei hun (Isa. liii. 4): dioddefodd newyn heb ddefnyddio'r galluoedd hynny a greasant ymborth i luaws yn yr anialwch, heb foddloni ei anghenion ei hun, ond yn aros wrth ewyllys ei Dad (Mat. iv. 11): rhoddodd ei hun i fynu i swyddogion yr heddweh, ac arweiniwyd ef *fel oen i'r lladdfa*, pan y gallasai alw am ddeuddeg lleng o angylion i'w gynorthwyo: ymddarostyngodd i arteithiau anhaeddianol y groes, heb gael ei gyffroi gan wawd y dorf, gan weddio a marw dros ei fwrddwyr."

Gwel y darllenydd, erbyn hyn, fod gwahaniaeth mawr rhwng yr esponwyr. Yr wyf o'r farn na fuasai gwahaniaeth yn bod oni bai fod y geiriau wedi cael eu cam-gyfieithu. Y cyfieithiad sydd yn ymddangos i mi y goreu yw hwn, "Canys chwi a adwaenoch ras neu ddaioni ein Harglwydd Iesu Grist, iddo ef fyw'n dlawd pan yn gyfoethog, fel y cyfoethogid chwi trwy ei dlodi ef." Nid dywedyd y mae'r apostol fod Iesu Grist wedi bod yn gyfoethog rhyw bryd o'r blaen, mewn rhyw fyd cyn ei ddyfodiad i'r byd hwn, a'i fod wedi gadael y cyfoeth hwnnw a dyfod i sefyllfa dlawd; ond dywedyd y mae ef fod yr Iesu yn gyfoethog ar yr amser yr oedd ef yn byw'n dlawd. Felly, beth bynnag sydd i'w ddeall wrth fod yn gyfoethog, y mae'n gosod allan y cyflwr yr oedd yr Iesu ynddo nid cyn dyfod i'r byd hwn, ond ar y pryd yr oedd yn byw yn dlawd ynddo.

Yn y vi. benod a'r 10fed adnod o'r un llythyr y mae'r un apostol yn gosod allan ei gyflwr ef a'i gyd-lefarwyr yn lled agos yr un fath, "Megis wedi ein tristâu, ond yn wastad yn llawen; megis yn *dlodion*, ond yn cyfoethogi llawer; megis *heb ddim* genym, ond yn meddianu *pob peth*." Felly yr oedd yr apostolion hefyd yn *dlodion*, ac etto yn *cyfoethogi llawer; heb ddim*, ac etto'n meddianu *pob peth:* geiriau lled gryfion, onide? Beth, pe buasai'r fath iaith yn cael ei harfer am Iesu Grist! Mor hyawdl y buasai duwinyddion yn gosod allan fawredd person y Messiah, ar un llaw; pwy ond Duw ei hun all feddianu *pob peth;* tra ar y llaw arall y buasent yn gosod allan ei dlodi yn cymmeryd ein nhatur ni arno. Buasai Dr. Adam Clarke ac eraill yn barod a'u

gofyniadau heb rif braidd. Sylwer hefyd fod ei apostolion a'i gyfeillion yn y cyflwr hwn ar yr un pryd; *tlodion*, ac etto yn cyfoethogi llawer; *heb ddim*, ac etto'n meddianu *pob peth*. Byddai hyn yn ddigon i esbonio iaith yr apostol yn y geiriau dan sylw oblegid nid oes dim yn well, wedi'r cyfan, na Phaul i esbonio Paul; ond ni a sylwn ychydig yn fwy manwl ar yr ymadrodd, fel y gallom weled, os gallwn, wir feddwl yr ymadrodd.

I. Sylwn ymha ystyr yr oedd Crist yn gyfoethog. Y mae'n wir nad oedd ganddo ddim o bethau'r byd hwn, ac etto yr oedd yn gyfoethog: yr oedd heb un lle i osod ei ben i lawr, ac etto yn gyfoethog. Yr oedd gyfoethog mewn doethineb. A phwy ryfedd; geiriau Duw oedd ganddo. Ni lefarodd ddim ond a gafodd orchymyn gan ei Dad pa beth a ddywedai, a pha beth lefarai. "Ac mi a wn fod ei orchymyn ef yn fywyd tragwyddol," medd ef. "Ni lefarodd dyn erioed fel y dyn hwn," medd ei elynion am dano. Yr oedd yn gyfoethog yntc. Fel prophwyd Duw yr oedd yn gwybod yr hyn oedd yn cymeryd lle yn ei absenoldeb; yr oedd y Tad yn aros ynddo, a gwyddai beth oedd mewn dyn. Yr oedd pob cyflawnder yn trigo ynddo yn bersonol, neu'n wirioneddol; yr oedd yn gyfoethog, ac yn gyfoethog iawn. Yn nesaf yr oedd yn gyfoethog mewn gallu. Yr oedd y Tad yn *aros* ynddo, ac yn gwneuthur y gweithredoedd a wyddo. Yr oedd wedi ei enneinio ag olew gorfoledd tuhwnt i'w gyfeillion; wedi derbyn yr Yspryd tuhwnt i fesur; yr oedd y buddar yn ei glywed, y dall yn ei weled; y llaw wiwedig yn cael ei chryfhau à gair; y meirw yn cael eu dychwelyd i fywyd drachefn; parodd i ychydig dorthau borthi miloedd. Weithiau cwympai ei elynion, er amled a chryfed fyddent, yn gwysg eu cefnau. Dyn profedig gan Dduw oedd Iesu, trwy wyrthiau, a rhyfeddodau, ac arwyddion, y rhai a wnaeth Duw trwyddo ef. "Ac ni a welsom ei ogoniant ef, gogoniant megis yr unig-anedig oddiwrth y Tad, yn llawn *gras* a *gwirionedd*," yn llawn nerth a doethineb.

II. Tlodi Crist. Yr oedd yn dlawd, ac nid *a ddaeth* yn dlawd ddim; ond yr oedd yn dlawd ar y pryd yr oedd y cyfoeth hwn ganddo. Er y doethineb dwyfol oedd i'w glywed yn ei eiriau; er y gallu dwyfol oedd i'w weled yn ei weithredoedd; er fod holl gyflawnder y duwdod yn trigo ynddo, er hynny tlawd oedd ef. Yr oedd yn dlawd yn mhethau y bywyd hwn. Er o deulu brenhinol, yr oedd wedi ei eni pan oedd y teulu hwnnw mewn amgylchiadau isel. Nid oedd gan yr Iesu na thai na thiroedd, nac aur nac arian; na, nid oedd gan Fab y dyn le i roddi ei ben i lawr. Yr oedd y llwynog a'r aderyn yn fwy cyfoethog yn hyn na'r Iesu. Pan y gofynwyd iddo am arian y deyrnged, nid oedd ganddo hatling i atteb y gofyn; ond rhag rhoddi tramgwydd i'r rhai oeddent a'r llywodraeth ganddynt, er, fel un o blant y deyrnas, yr oedd yn ddigon rhydd, "Er hynny, rhag i ni eu rhwystro hwy, dos," medd ef wrth Petr, "a bwrw fach, a chymmer y pysgodyn cyntaf, ac wedi i ti agor ei safn, ti a gei ddarn o arian: cymmer hwnnw, a dyro iddynt drosof fi a thithau." Yr oedd yn dlawd ac etto yn gyfoethog ar yr un pryd. Yr oedd yn dlawd o herwydd yr erlidigaeth, y gwaradwydd, y cam-ddarluniadau, y dioddefiadau, a'r angau orfu iddo fyned trwyddynt. Er fod ei foesoldeb y fath na fu erioed o'r blaen cyffelyb iddo yn monwes dyn; ei rinwedd yn dysglaer heb frycheuyn, er hynny gelwid ef yn ddyn glwth, yfwr gwin, cyfaill publicanod a phechaduriaid. Er dwyn y gwallgof i'w iawn bwyll, er hynny trwy Beelzebub, pennaeth y cythreuliaid, yr oedd yn bwrw allan gythreuliaid, meddai y Phariseaid hunanfalch. Er dangos modd trechu angau, er torri cloion carchar olaf dyn, carchar olaf pob dyn, a dywedyd, o

herwydd y gwyddai mai felly y byddai, "Os ceidw neb fy ymadrodd i, ni wel efe farwolaeth yn dragywydd:" yn lle cael ei dderbyn am hyn, fel y dylasai, i'r ystafelloedd goreu: yn lle cael ei ystyried fel cyfaill goreu dyn, iaith yr Iuddewon am dano oedd, "Yn awr y gwyddom fod gennyt gythraul." Triniaeth dlawd i dywysog y bywyd! Yr oedd ef yn dlawd.—Pan y gwnaeth Duw, mewn atteb i'w weddi ynghanol ffrwd o ddagrau, y gwyrth rhyfeddol hwnnw a Lazarus farw, Lazarus yn ei fedd. Boreu hyfryd i Mair a Martha; boreu cael eu brawd anwyl yn ol o freichiau angau; boreu agor clustiau byddar pedwar diwrnod; boreu gorfoleddu ar ol tristwch, a llawenhau ar ol galar. Gallesid meddwl y buasai pob un yn ei bwyll ddyfod i'r un casgliad a phennaeth yr Iuddewon, "Na allai neb wneuthur y gwyrthiau hyn yr cedd ef yn eu gwneuthur, oni bai fod Duw gydag ef." Nid dynna oedd yn aros yr Iesu y tro hwn, eithr yn lle hyn, "O'r dydd hwnnw allan cydymgynghorasant fel y *lladdent* ef." Oherwydd hyn ni rodiodd yr Iesu yn amlwg mwy, ond aeth i Ephraim, yn agos i'r anialwch. O'r blaen heb le i osod ei ben i lawr, 'nawr ni faeddia i ymddangos yn gyhoeddus mwy, nes del yr awr iddo gael ei ddal a'i ladd. Tlawd yn wir oedd Iesu. Yr oedd yn ffurf Duw, ond ar y groes y gorfu iddo farw, marwolaeth caethwas, marwolaeth y drwgweithredwr gwaethaf, a hynny, o herwydd iddo gyfodi Lazarus o'i fedd; dyma barodd i'r arch-offeiriaid a'r Phariseaid i alw'r cynghor tywyll hwnnw i eistedd mewn cyngrair yn erbyn Mab y dyn, a phenderfynu ei ladd ef. Tal tlawd am weithred mor ysplenydd. Tlawd oedd Iesu. Tlawd y driniaeth chwerw a gafodd.

Yr oedd yr Iesu yn dlawd o'i fodd serch hynny. Gallasai yr hwn a borthodd y pum mil trwy'r Iesu, borthi yr Iesu ei hun hefyd â lluniaeth ac â llawenydd. Gallasai yr hwn a roddodd y darn arian yngenau'r pysgodyn, roddi tir yn difesur, aur ac arian yn ddirif, i'w anwyl Fab pe'r ewyllysiai; a gallasai, fe allasai ei osod i eistedd ar orsedd y byd ar unwaith; ond nid felly y rhyngodd bodd i'r Tad, ac nid hyn foddlonai'r Iesu chwaith. Pan y mynnai y werin ei gipio i'w wneuthur yn frenhin, efe a giliodd. Gallasai yr hwn a gyfodod Lazarus o'i fedd ar gais yr Iesu, ac a roddodd fab y weddw o Nain oddiar ei elor i freichiau ei fam alarus a hiraethlon, gallasai hwn, meddaf, roddi mwy na deuddeg lleng o angylion i attal gelynion yr Iesu i'w ddal a'i ladd; ond er tlotted oedd y sefyllfa, yr oedd yn well gan yr Iesu fyned trwyddi nag i fyllt y bedd aros heb eu dryllio. O ïe, o'i fodd y bu efe farw; nid oes neb yn dwyn fy einioes oddiarnaf, eithr myfi sydd yn ei dodi hi i lawr fel y cymmerwyf hi drachefn. Nid fy ewyllys i, ond yr eiddot ti o Dad a wneler, oedd llais yr Iesu, yngolwg y groes. Yr oedd yr Iesu yn dlawd, ac yr oedd ef hefyd yn eithaf bodlon i'r sefyllfa isel honno.

III. Ymha ystyr y mae tlodi Crist yn gyfoeth i ni.

Y mae ei dlodi gwirfoddol ef yn gyfoeth i ni, yn yr esiampl y mae ef wedi adael i ni o bob rhinwedd, er yn yr amgylchiadau iselaf, a than y profedigaethau cryfaf. Er yn gyfoethog mewn doethineb a gallu, oherwydd fod Duw gydag ef, ni wnaeth un gwyrth er ei fwyn ei hun; porthodd filoedd ag ychydig ymborth, nid er ei fwyn ei hun, ond fel y dygai ei gyd-ddynion i ymofyn am y bara a ddaeth i wared o'r nef, a chael eu cyfoethogi trwy hynny. Er tlotted oedd ef, aeth oddiamgylch gan wneuthur daioni. Yn yr esiampl a adawodd i ni, dangosodd fod yn rhaid i ni ymwadu â ni ein hunain, neu ymwadu ag ef; fod yn rhaid i ni gyfodi'r groes, os mynwn ei ganlyn ef. Yn ei sefyllfa dlawd, pwy wnaeth gymmaint o ddaioni a'r Iesu? Lles eraill

oedd ganddo ef mewn golwg; lles eraill raid i ninnau gadw mewn golwg hefyd, a thyma wir gyfoeth, cyfoeth o ffydd a hyder yn Nuw yn yr amgylchiadau cyfyngaf; cyfoeth o weithredoedd da, gwledd barhaus, cydwybod dawel, anian Duw yn enaid dyn. Nid esiampl y cyfoethog sydd gennym; ond esiampl y tlottaf o ddynion yn gwneyd daioni; tlawd yn ei fwthyn, nage, tlawd heb un lle i osod ei ben i lawr, ac etto yn gwneuthur aneddau yn ddedwydd. Pwy gyfoethogodd y weddw o Nain â mwy na chyfoeth daear, â'i mhab marw yn fyw drachefn? Atteb y weddw yw, Y gwr heb le i roi ei ben i lawr. Pwy sychodd ddagrau Mair a Martha? Y tlottaf o dlodion daear. Dyma gyfoeth! Nid oes neb yn rhy dlawd i fod yn gyfoethog bellach. Gall pob un fod yn dduwiol, gall pob un fod yn gyfoethog mewn gweithredoedd da bellach.

Etto yn ei dlodi ef y mae gwirionedd ei athrawiaeth, a dwyfoldeb ei genhadwri a'i weithredoedd, yn ymddangos bennaf, a thyma ein cyfoeth ninnau, ac fe bar i fod yn gyfoeth i oesoedd olynol y byd. Dyma nerth Cristnogrwydd, sef ei bod o Dduw, ei holl addewidion yn wir i gyd, a'i holl fygythion yn sylweddol: mae barn i fod. Yr oedd y trysor hwn mewn llestr pridd, fel y byddai godidawgrwydd y gallu o Dduw. Ni ellir dim priodoli llwyddiant ei efengyl i gleddyf y llywodraeth; yr oedd hwn yn ei erbyn. Ni ellir priodoli ei ddoethineb i fanteision dysgeidiaeth y byd hwn, i un coleg, na sect o philosophyddion; "Pa fodd y medr hwn ddysgeidiaeth ag yntau heb ddysgu." Na, na, y mae'n *rhaid* priodoli ei weithredoedd a'i ddoethineb i Dduw, fel y gwnai ef ei hun: felly ynte, y mae ei athrawiaeth ef yn wir, nis gellir amheu hyn ar dir teg; ac os gwir, y mae ynddi gyfoeth; y mae ynddi fodd i wneuthur pob calon yn ddoeth i iechydwriaeth, yn gyfoethog mewn gweithredoedd da, yn gyfoethog yn nheyrnas nefoedd o'u mewn, yn gyfoethog mewn adnabyddiaeth o Dduw'n Dad a dyn yn frawd: cyfoeth yw hwn na all y lleidr ei ladratta na'r gwyfyn ei lygru.

Yn ei dlodi *mwyaf* ef y mae ein cyfoeth *mwyaf* ninnau. Yn ei angau gwaradwyddus, angau'r groes, angau caethwas, angau cyhoeddus, a bywyd cyhoeddus y trydydd dydd. Dyma dlodi dwfn, dyma gyfoeth anhraethadwy hefyd. Tlawd oedd hi ar Iesu i fyw heb le i osod ei ben i lawr, byw ar garedigrwydd eraill yn hollol; ond tlottach lawer oedd marw ar y grogbren. Ond dyma oedd ewyllys Duw, a thyma hefyd oedd ewyllys Iesu; ac wele fywyd dyn, bywyd tragywyddol dyn wedi ymddangos pan oedd pob peth megis wedi darfod; wele angau yn gorfod esgor ar fywyd, tlodi ar gyfoeth; "Gan fod marwolaeth trwy ddyn, trwy ddyn hefyd y mae adgyfodiad y meirw." Pan oedd hi dywyllaf y daeth hi oleuaf yn y diwedd. Aeth yr Iesu trwy'r sefyllfa dlawd hon o'i fodd, fel y cyflawnai ewyllys Duw, ac y rhyddhai ofidiau angau. Dyma gyfoeth! O'r fath e ddil tlawd yw dyn yn llaw angau! Ddoe'n nerthol, heddyw'n wan; ddoe'n siarad, heddyw'n fud; ddoe'n gweled, heddyw'n ddall; ddoe'n clywed, heddyw'n fyddar; ddoe'n fyw, heddyw'n farw. O'r fath gyfnewidiad! Ei balas wedi troi'n fedd: ei sidan a'i borphor wedi troi'n amwisg. Hawdd iawn, onide? Ond wele gyfoeth trwy'r Iesu. Aeth tywysog y bywyd i ystafell angau er mwyn trechu'r gelyn olaf, er achub bywyd dyn. Mae bywyd etto i'r marw; mae barn i fod; oes dragywyddol o'n blaen; mor o ddedwyddweh yn ein haros yn lle'r dafnau gorfoledd yma a gawn. Felly y mae yma gyfoeth, cyfoeth na allwn ni ddychymygu ei werth ef etto. Y mae etifeddiaeth tragywyddol yn aros plant Duw. "Os plant, yna etifeddion, sef etifeddion i Dduw a chyd-etifeddion a Christ Iesu ein Harglwydd.

Yr adnodau nesaf yw Phil. ii. 5—9. Ond gan fod digon wedi ei ysgrifenu eisioes yn yr YMOFYNYDD ar yr adnodau uchod (gwel yr YMOFYNYDD am Mehefin, 1849, tudalen 134, &c.,) ni wnaf ragor yn bresenol, na sylwi fod ffurf Duw, yn yr adnodau hyn, yn atteb i'r cyfoeth a fu dan ein sylw eisioes, a'r dibrisio ei hun, neu waghau ei hun, yn atteb i'r tlodi yn yr adnod uchod. Fod Iesu yn ffurf Duw ar y pryd yr oedd yn gwaghau ei hun.

Y prawf nesaf a dygir dros rag-hanfod Crist yw Col. i. 15. "Yr hwn yw delw y Duw anweledig, *cyntaf-anedig* pob creadur." Y mae Grotius ynghyd a'r Undodiaid yn esbonio'r adnod hon am y greadigaeth newydd, y cyntaf a'r mwyaf yn hon oedd Crist. Eph. ii. 10, "Ei waith ef ydym, wedi ein creu yng Nghrist Iesu i weithredoedd da, y rhai a rag-ddarparodd Duw, fel y rhodiem ni ynddynt." iv. 24. "A gwisgo y dyn newydd, yr hwn yn ol delw Duw a grewyd mewn cyfiawnder a gwir sancteiddrwydd." Y mae'r gair *cyntaf-anedig* yn cael ei arfer i osod allan ardderchawgrwydd neu urddas, Ps. lxxxix. 27. "Minau a'i gwnaf yn *gynfab*, GORUWCH brenhinoedd y ddaear." Yma y mae cynfab yr un peth ag uwchafiaeth. Jer. xxxi. 9, "Oblegid myfi sydd Dad i Israel, ac Ephraim yw fy nghyntaf-anedig." Job xviii. 13, "Efe a ysa gryfder ei groen ef, *cyntaf-anedig* a fwytty ei gryfder ef." Y mae'r greadigaeth newydd yn ymadrodd anwyl gan yr Apostol. 2 Cor. v. 27, "Gan hynny od oes neb yng Nghrist, y mae efe yn greadur *(creadigaeth)* newydd: yr hen bethau a aethant heibio; wele, gwnaethpwyd pob peth yn newydd." Y mae'r cyntaf-anedig yn cael ei arfer am Iesu fel y cyntaf a ddaeth o feirw, yn y 18fed adnod o'r ail bennod o'r Colossiaid. "Ac efe yw pen *corph* yr eglwys; efe, yr hwn yw y *dechreuad* (yr eglwys Gristnogol), y cyntaf-anedig oddiwrth y meirw." Tuhwnt i bob amheuaeth dyma yw'r meddwl hefyd yn y 15fed adnod. Ac y mae'n eithaf tebyg mai dyma'r meddwl ymhob man gan Paul. Rhuf. viii. 39, "Oblegid y rhai a ragwybu efe, a ragluniodd efe hefyd i fod yn un ffurf a delw ei Fab ef; fel y byddai efe yn *gyntaf-anedig* ymhlith brodyr lawer." Yr un meddwl hefyd a gawn yn Col. i. 17, "Ac y mae efe *cyn* pob peth, ac ynddo ef y mae pob peth yn cydsefyll." Hynny yw, yn y greadigaeth newydd, Iesu oedd y cyntaf, a thrwy ei athrawiaeth ef y mae'r cwbl yn cael eu cadw ynghyd.

Yr olaf a gaf sylwi arni yw Dat. iii. 14, "Y pethau hyn y mae Amen yn eu dywedyd, y tyst ffyddlon a chywir, dechreuad creadigaeth Duw." Y greadigaeth *newydd* yn ol yr Undodiaid a'r esponiwr goleu-dyb Grotius. Y greadigaeth *naturiol* yn ol y Trindodiaid a'r Ariaid. Y mae ein Harglwydd yn cael ei osod allan yma fel dysgawdwr y gwirionedd; ac yn lled debyg mai at hyn y mae alpha ac omega yn cyfeirio yn y llyfr hwn, y llythyren gyntaf a'r olaf yn athrawiaeth y gwirionedd. Y mae Crist yma yn cael ei osod allan hefyd yn ferthyr dros y gwirionedd; felly y mae'n fwy naturiol i ddeall y greadigaeth newydd yma etto, cyntaf-anedig holl greaduriaid hon oedd yr Iesu. Mai nid efe oedd y Creawdwr sydd amlwg oddiwrth y iv. 8—11 a xiv. 6, 7. Bydded y darllenydd mor fwyned a throi attynt, oherwydd fod fy llythyr wedi chwyddo eisioes i'r fath faintioli.

Wele ni yn awr wedi sylwi ar yr holl brofion eryfaf i gyd, a ddygir ymlaen dros yr athrawiaeth o rhag-hanfod Crist. Bellach, cydmared y darllenydd yr hyn a dywedwyd a'r gwirionedd: pwysed yn ddifrifol y rheswm sydd o'i flaen; a barned yn ddiduedd drosto ei hun. Peth personol yw crefydd, ac ofer pino ein hathrawiaeth wrth lawes neb. Yn awr, ddarllenydd hynaws ac amyneddgar, bydd wych; y gwirionedd fyddo'th dywysydd, a'r nefoedd dy ran, medd,

N. neu OWEN EVANS.

Gohebiaethau.

MADOC AB OWAIN GWYNEDD.

At Olygydd yr YMOFYNYDD.

YN y flwyddyn 1770 cyhoeddwyd Cylchgrawn Cymreig gan y Parch. Josiah Rees, Gelligron. Dichon fod amryw o dderbynwyr yr YMOFYNYDD mewn meddiant o hono; ac os oes un o honynt yn foddlon ei werthu, carwn gael copi cyflawn, neu os na werthir ef carwn gael ei fenthyg.

Ond fy mhrif ddyben yn awr yw gofyn cwestiwn yn ei gylch. Mewn traethawd gan Dr. John Williams, 1792, ar fordaith Madog, dywedir fod gan y Parch. Josiah Rees Gronicl yn cynnwys hanes am fordaith Madog; ac y mae Cronicl yn gyhoeddedig yn y Cylchgrawn; ond nid oedd y copi a welais i yn gyflawn, ac nid oedd yn cyrhaedd hyd at y flwyddyn 1170, nac yn crybwyll am Fadog ab Owain. Os oes copi cyflawn gan un o ddarllenwyr yr YMOFYNYDD, a fydd efe cystal ag edrych os yw y Gronicl yn cyrhaedd hyd O.C. 1170, neu yn crybwyll am Madog; ac ym mhellach, os ydyw, i gopio y crybwylliad air yng ngair, a'i ddanfon naill ai attaf fi, neu i'w gyhoeddi yn yr YMOFYNYDD.

Yr eiddoch, &c.,

T. STEPHENS.

Merthyr Tydfil.

Y WEINIDOGAETH UNDODAIDD YN NGHYMRU.

At Olygydd yr YMOFYNYDD.

BARCH. SYR,—A fyddwch chwi cystal a rhoddi diolch i "Ewyllysiwr da" am ddwyn y pwnc yna i sylw y cyhoedd yn yr YMOFYNYDD diweddaf, ag i chwithau a'r boneddigion sydd wedi tanysgrifio gymmeryd diolchgarwch gwresog gan lawer heblaw fy hun. Yr oeddwn am ofyn i chwi i roddi gwahoddiad cyhoeddus trwy yr YMOFYNYDD, i bawb a chwithau wedi amlygu parodrwydd i gymeryd swydd ysgrifenydd, hyd y cied deimlant les yr achos ddyfod yn danysgrifwyr, ag i'w henwau gael eu cyhoeddi yn yr YMOFYNYDD o fis i fis.

Ai gormod fyddai i'r Gymdeithas gymeryd i mewn un peth arall, sef cynorthwyo Eglwysi gweinion i GYNAL Gweinidogion. Os na ellir eu *cynal* ni fydd o un diben roi addysg i'r perwyl.

Byddai cymdeithas o'r natur uchod yn rhagori ar ddim a wnaed gan yr Undodiaid hyd yn hyn yn Nghymru. Yr wyf yn meddwl ar awdurdod da fod llawer o foneddigion yn Sir Gaerfyrddin ac Aberteifi hefyd a ddelent yn danysgrifwyr pe byddai y Gymdeithas wedi ei ffurfio. Hyderaf y daw talentau galluog yr YMOFYNYDD i'r maes ar y pwnc hwn, a chredwn na fydd eu llafur yn ofer.

Gorphwysaf barch. syr,

Yr eiddoch yn ostyngedig,

MEBUNAI.

MR. GOL.,—O'ch hynawsedd cefais y fraint o ddarllen y ddwy erthygl odidog yn y gyfres gyntaf o'r YMOFYNYDD, y darfu i chwi gyfeirio attynt yn eich olsylw ar fy llythyr. O'm rhan fy hun yr wyf yn hollol gydfyned a'r syniadau a gynwysant, ac yn credu mai buddiol iawn fyddai i'r rhai na chawsant y pleser o'u darllen i wneyd hyny yn ddioed. Mae eich cynllun chwi yn amcanu at yr un peth yn union, er nad yr un ffordd â fy awgrymiad i; ac o'r ddau, yr wyf yn cydnabod eich un chwi y mwyaf sicr ac ymarferol o lawer. Yn wir, gall y ddau gynllun gydweithio yn eithaf hawdd tuag at gyrhaedd yr un dyben o gynorthwyo dynion ieuainc teilwng, ond gwanaidd eu hamgylchiadau, i barotoi eu hunain ar gyfer y weinidogaeth. Os daw y cymunroddion a'r ysgoleig-daloedd, goreu i gyd, a gobeithiaf y deuant; ond yn lle dysgwyl a dim ond dysgwyl am beth sydd o anghenrheidrwydd yn ansicr, y peth goreu i'm tyb i fyddai i ni fwrw ynghyd a'r gorchwyl gyda'n gilydd, bob un i wneyd ei ran er cael trysorfa i'r pwrpas dan sylw. Mae y cynyg yn awr ger bron, a gall rhywrai a garent ddweyd gair yn mherthynas iddo. Mae dechreuad gobeithiol wedi cael ei wneyd, £11 rhwng dim ond wyth o gyfeillion, a

cyfarfod o'r Tanysgrifwyr i drefnu pethau yn mhellach. Nis gellir dwyn y cyhuddiad o frys o leiaf yn erbyn y mudiad, gan ei fod wedi cael ei gynnyg er ys dros saith mlynedd, ac os nad ydys am gadw arch Horace yn llythyrenol, *nonum prematur in annum*—mae yn bryd bellach i ni gychwyn rhagom. Pa le y mae cyfeillion y Weinidogaeth yn ein plith? A wneir dim ateb gweddol gyffredinol i apel mor deilwng a'r un bresenol? Ni ddywedaf ragor ar hyn o bryd na gofyn i chwi, Syr, a fyddai yn anhawdd genych adael i rês y Tanysgrifwyr ymddangos ar amlen yr YMOFYNYDD? Ac ymrwymaf y bydd i chwi dderbyn 10s. yn flynyddol ac feallai ragor oddiwrth yr eiddoch, &c,

EWYLLYSIWR DA.

[Enwau a dderbyniwyd yn ychwanegol—
Parch. Titus Evans, Caerfyrddin £1 0 0
Ewyllysiwr Da ..... 0 10 0]

SYR,—Yn ddiweddar cafodd cyfansoddiadau buddugol Eisteddfod Llanbedrpont-Stephan eu cyhoeddi, ac yn eu plith y mae Traethawd, yn dwyn enw y Parch. D. Llwyd Isaac, ar "Hanes Llanbedr a'r gymydogaeth," yn yr hwn o dan yr adran "Ymneillduaeth y Cylch," y ceir a ganlyn:

"1. *Arminiaeth.* Jencyn Jones, Pantydefaid, ydoedd y cyntaf yn yr oesoedd diweddar a ddechreuodd gyhoeddi golygiadau Arminaidd yn swydd Ceredigion; aelod gyda yr Henuriaid yn Pantycreiddyn ydoedd ef yn wreiddiol; a chan ei fod yn wr o athrylith gwnaeth gyffroad mawr yn ei ddydd mewn berwi yr hen Gymraeg yn nghrochan y ffydd. Adeiladwyd Llwynrhydowen yn rhwyg o Abercreiddyn [*sic*] yn y fl. 1725 ac Alltyblacca yn 1740; gwedi hyny Bwlchyfadfa a'r Cribyn,—oll o darddiad Arminaidd.

2. *Undodiaeth* neu *Sosiniaeth.* Ymranodd y blaid hon oddiwrth Arminiaeth tua dechreu y ganrif bresenol, dan arweiniad y Parch. C. Lloyd, mab i'r hen Llwyd, Bryn-llefrith. Adeiladwyd Capel y Groes yn 1802. Mae sectyddiaeth wedi llwyddo, yn anad un man, yn sir Aberteifi, i wneyd carn o ddadleuwyr pengam, sychion, iach eu cyflwr, o'r werin-bobl. Dadlu, hollti, ac ymbiniwna; ac nid cyfarfod mewn mawl a gweddi, a chrêd a phader a bedydd. Och fi! Nagê, ond Pwnc, pwnc. A dyna fel y gellid dysgwyl, gwedi tori yr hen undeb eglwysig, a chodi angor hefyd oddiar air Duw, a symlrwydd yr Efengyl. Nid ydyw bywyd tragwyddol gwedi ei hongian gymaint wrth holltyddiaeth barn, ag ydyw wrth fuchedd loew a chalon lân, yn bwrw angor yn Iawn mawr y groes." (tudal. 104.)

Nid teg, feallai, fuasai dysgwyl rhyw hanes cyflawn mewn traethawd o'r fath ar y gangen hon o'r testun. Elsai y traethawd trwy hyn yn faith ac anghyfrodedd. Er hynny, nid ammhriodol fuasai crybwyll hen Gapel Cae'ronen, yn enwedig ynghylch Llanbedr, heb sôn am un neu ddau eraill heb fod mor bell o'r dref dan sylw, a rhai y sonia yr awdwr am danynt. Ond hyn gyda llaw, yr hyn oeddwn am ofyn oedd

1. Ai peth priodol i hanesydd oedd traddodi y farn galed a rhoi y sèn a gynwysir tua diwedd y dyfyniad uchod? Ai nid cofnodi ffeithiau ddylasai fod ei brif amcan, yn enwedig mewn crybwylliad mor fras ag yw yr uchod? Ai swydd hanesydd yw rhoi defnyddiau i eraill tuag at dynu casgliadau, ynte eu tynu ei hun a'u dodi i lawr dan yr enw o hanes?

2. Os priodol oedd iddo draddodi barn galed a rhoi sèn, a ydym i feddwl eu bod yn gyfiawnder yn yr amgylchiad hwn? Gellid meddwl, wrth y cysylltiad yn yr hwn y ceir hwynt mai yr Undodiaid sy'n cael eu trin, er yn dra thebyg, y byddai yr awdwr, yn y cyffredin, yn cynwys pob enwad o Ymneillduwyr o dan y gair 'sectyddiaeth.' Yn awr ai dyma gymeriad Undodiaid Llanbedr a'r gymydogaeth? "Rhai pengam, sychion, yn dadla a hollti (hollti peth, tybed?) ac ymbiniwna?" Faint o wir, a faint o anwir sydd yn y cyhuddiad trwsgl hwn? A oedd gwydrau y brawd parchedig yn glir, ai ynte delwau y "gred a'r bader a'r bedydd" oedd yn chwarai a symud ar hyd ddynt nes britho a thraws ffurfio yr olygfa?

Os yw'r gofyniadau hyn yn deilwng carwn i ryw un wneyd sylw byr o honynt. Mae'r boneddigeiddrwydd iaith ac ymddygiad, a'r tynerwch barn, a'r bri am ddysgeidiaeth a gysylltir yn gyffredin a chymeriad offeiriad, yn peri fod cryn sylw yn cael ei dalu i'w dystiolaeth; fel mai iawn i ni ymholi i natur y dystiolaeth hon, rhag ei bod yn cael ei derbyn gyda mwy o barodrwydd ac o hyder nag y bo yn eu teilyngu. BRODOR.

Newyddion Gartrefol a Thramor.

Y Senedd Ymherodrol.—Agorwyd y Senedd dydd Mawrth y 5ed o Chwefror gan y Frenhines yn bersonol. Nid oedd dim braidd yn Araeth ei Mawrhydi ag sy'n galw am sylw neilldnol. Cyfeiriai, fel mae yn arferol, at ein perthynasau heddychol â gwledydd eraill—gyda chydnabyddiaeth o ddiolchgarwch at derfyniad llwyddiannus y rhyfel â China. Llefarai gyda chymeradwyaeth am lwyddiant yr Italiaid i enill a sefydlu eu rhyddid a'u hundeb cenhedlaethol; ac yn neilldnol o weddus a theimladwy ynghylch yr anghydfod a'r ymraniad anhapus sydd wedi cymeryd lle yn yr Unol Daleithiau Americanaidd. Ond y mae yr Araeth yn hynod o ddistaw am unrhyw fesurau gwleidiadol o bwys a ddichon fod mewn bwriad neu dan ystyriaeth gan y Weinyddiaeth. Dim son am ostwng y trethi na lleihau traul anferthol y fyddin a'r llynges, nac ychwaith am unrhyw gynnyg tuag at gael diwygiad Seneddol. Dim gair na thros nac yn erbyn dilëad y Dreth Eglwys. A diau mai gwell peidio addaw na dwyn ymlaen gynnygiadau a fyddant yn debygol i derfynu mewn siomedigaeth. Pa fodd bynag yr ydys wedi addaw dwyn ger bron y Senedd rai mesurau pwysig; er cydgorphori rhanau o'r gyfraith perthynol i Droseddiadau; er gwelliant ar gyfraith y Methdaliad (*Bankruptcy*); er rhwyddhau trosglwyddiad tiroedd; ac er sefydlu trefn gyson ac unffurfiol ar y talocdd plwyfol trwy Gymru a Lloegr.

Diwygiad Seneddol.—Darfu Arg. J. Russell, mewn hunan-amddiffyniad, yn Nhŷ y Cyffredin, ddydwedyd mai ei resym pennaf dros beidio dwyn *Reform Bill* newydd etto ger bron y Senedd, ydoedd *difaterwch* y bobl ynghylch y peth. "Myfi," eb efe, "oedd awdwr y *Reform Bill* a ddygwyd i mewn tua 30 mlynedd yn ôl dan nawdd Iarll Grey; ac a basiwyd trwy y Senedd, ac a ddaeth i fod, oddiar hyny, yn gyfraith y tir. Ac os ydyw'r wlad yn ystyried fod y mesur hwnw yn gweithio mor dda, fel nas teimlant fod fawr angen i'w wellhau, nid oes achos i mi, yn anad neb, i ddangos anfoddlonrwydd." Y mae cynnygiad Mr. Locke King, i roddi'r bleidlais i dyddynwyr a dalant 10 punt yn y flwyddyn o ardreth, wedi cael ei ddwyn i mewn a'i dderbyn; felly cynnygiad Mr. Baines i roddi hawl i'r bleidlais i'r sawl a dalant 6 punt yn y flwyddyn yn y bwrdeisdrefi.

Y Dreth Eglwys.—Mae yr Eglwyswyr wedi bod yn bur ymdrechgar trwy y wlad i gael deisebau er cynnal y Dreth Eglwys. Tua chanol y mis diweddaf cynnaliwyd cyfarfod lluosog a dylanwadol gau wrthwynebwyr y Dreth yn y Free Masons' Tavern yn Llundain. Yr oedd oddeutu pymtheg o aelodau Seneddol yn bresennol, bagad o ba rai a gymerasant ran yn ngwaith y cyfarfod. Yr oedd yno gannoedd lawer wedi ymgynnull ynghyd, ac yr oedd holl brif drefi y deyrnas yn cael eu cynrychioli yno. Penderfynwyd ag un llais i gefnogi ysgrif Syr John Trelawny mewn gwcithrediad uniongyrchol a diysgog ar y Senedd, ac i beidio derbyn *compromise* o unrhyw fath; ac i godi tair mil o bunau tuag at gario ymlaen y cynhyrfiad.

Yr Esgobion a'r "Essays and Reviews."—Y mae cryn gynhwrf yn bresenol yn yr Eglwys Esgobyddol a thu allan i'r Eglwys honno o achos cyhoeddiad yr "Essays and Reviews." Gan y dygir y Traethodau hyn maes o law, gobeithiwn, dan sylw darllenwyr yr Ymofynydd, y mae yn ddigon yn awr i ddywedyd bod eu hawdwyr yn cael eu cydnabod gyda'r ysgrifenwyr a'r duwinyddion mwyaf galluog a dysgedig yn ein gwlad neu yn y byd. Nid y'm yn cytuno â hwynt yn mhob peth. Ond yr y'm yn rhwym o barchu eu dysg a chanmol eu gwrolder a'u gonestrwydd. Y mae yr Archesgobion a'r Esgobion oll (oddieithr Esgob Caerwrangon, yr hwn sydd heb ei gyssegru etto) wedi arwyddo eu gwrthdystiad yn erbyn y Traethodau hyn, fel yn cynwys athrawiaethau croes i exthyglau yr Eglwys, a *hereticaidd*. Eu bod yn groes i erthyglau yr Eglwys sydd bur debyg. Ond beth am hynny? Nid yw yr Esgobion wedi ymddaroetwng i ddangos ym mha beth neu ym mha

bethau y mae yr *heresi* yn gynnwysedig. Awgrymir fod eisiau dwyn yr hereticiaid hyn i dreial a chondemniad, ond ei bod yn amhëus pa un ai gellir gwneyd hyny yn ol rheolau disgyblaeth yr Eglwys. Ond beth bynag am hyny, ymddengys fod pende fyniad yr esgobaeth yn ffafriol i'r hen drefn o gondemnio i ddystryw yn gyntaf, ac wed'yn i gynnal cwest Gosodir y bleiddgwn a'r gwaedgwn cyssegredig i erlid yr awdwyr dysgedig ac anturiaethus, a chlywir ambell i gorgi bach yn cyd-uno yn y cyfarth heb yn iawn wybod p'am. Ond beth yw y canlyniad? Y mae argraffiad ar ôl argraffiad yn dyfod allan o'r "Essays and Reviews."

Ildiad Gaeta.—Wedi ymadael o'r llynges Ffrengig â Gaeta, darfu y Sardiniaid ymosod o ddifrif ar yr amddiffynfa. Y mae Francis II o'r diwedd wedi ei rhoddi i fynu; wedi dystrywio rhan fawr o'r ddinas, gwelodd nad oedd dim arall i'w wneud Ymadawodd a'r lle Chwefror y 14eg, mewn llong i fyned i Civita Vechia. Bydd y milwyr oedd ganddo yn amddiffyn Gaeta i gael bod yn garcharorion rhyfel, hyd nes rhoddir i fynu amddiffynfeydd Messina a Civitella del Tronto. Derbyniodd y Pab yr olaf o'r Bourbons yn roesawus i'w balas yn Rhufain. Dywedir nad yw y Brenin yn bwriadu aros yno ond ychydig, ei fod yn meddwl myned rhag ei flaen i Bavaria.

Y Senedd Italaidd.—Tua chanol y mis diweddâf cyfarfu Senedd Genhedlaethol Italy am y tro cyntaf yn Turin. Nid oedd yn beth i'w ryfeddu bod ymgynulliad mor bwysig ac mor anarferol a ddyeithr yn peri cyffro a dyddordeb mawr trwy y ddinas a'r wlad yn gyffredinol. Wrth agor yr eisteddfod gwnaeth y Brenin Victor Emmanuel araeth fywiog a chyffrous, yr hon a dderbyniwyd gydâ brwdfrydedd anghyffredin. Un peth ag oedd yn rhoddi pwys ac effeithioldeb neilldnol i araeth y Brenin ydoedd, ei fod yn gallu hysbysu iddynt y newydd fod Gaeta wedi syrthio i feddiant y fyddin Sardiniaidd. Yn y feirniadaeth ar yr araeth hon sylwa yr *Examiner*, y buasai yn well ac yn fwy i'r pwrpas pe buasai yn gosod mwy o bwys ar ymdrechiadau hunan-ymddibynol yr Italiaid, a'r moddion angenrheidiol er ewbllhau eu hamcanion a sefydlu a sicrhau eu rhyddyd, a dangos llai o ymddibyniad ar gyfeillgarwch a chynhorthwy Emprwr Ffrainc.

Ffrainc a Rhufain.—Ymhlith arwyddion lawer y rhai ydynt yn ei wneuthur yn fwy a mwy amlwg o ddydd i ddydd fod llywodraeth dymorol y Pab yn prysuro at derfyniad, y mae *pamphlet* newydd ymddangos yn Paris (nid yn ddiarwybod i'r Ymherawdwr) yn yr hwn y ceisir dangos mai y peth goreu i'r Eglwys Gatholig ac i'r Pab ei hun, fyddai iddo ymddiosg o'i awdurdod dymhorol, ac i ymroddi yn gyfangwbl i'w ddyledswyddau a'i waith ysprydol fel Pen yr Eglwys. Disgwylir bob dydd fod Victor Emmanuel wedi cael ei gyhoeddi yn Frenin Italy oll oddiar y Capitol yn Rhufain.

Bu Farw—

Ion. 27ain, 1861, yn Llanbedr-pont-Stephan, Ceredigion, Mr. David Williams, yr hen Fardd Dewi Farfog; wedi byr gystudd, yn llawn o ddyddiau, yn 84 mlwydd oed. Yr oedd Dewi yn un o ddynion mwyaf ffraethlym ac yn un o brydyddion mwyaf parod ei wlad; eto ychydig o'r werin sydd yn gwybod nemawr am dano. Mae llawer o gyfansoddiadau da rhagorol ar ei ol, ond erioed heb eu cyhoeddi, ond gellir gweled ychydig o honynt yn argraffedig yn Ngwladgarwr Mehefin 19eg, 1858. Terfynaf yn awr [illegible] chofnodi englyn beddargraff a gyfansoddodd ef iddo ei hun ychydig cyn marw.

Dyma'r bedd y gorweddaf,—yn rhodd
'Rhan adwedd ni hyddaf;
Darfu mwynddydd hirddydd haf,
Ond hirnos cauodd arnaf.

Blaenau Cellan. J. Glan Teifi.

Ion. 29ain, Margaret Lewis, yn 47 oed, merch y diweddar Evan Lewis, Llwyn-rhydowen; ar ol gystudd maith a phoenus, yr hwn a ddygodd gydag amynedd a sirioldeb anarferol. Pregethwyd yn ei hangladd gan y Parch T. Thomas, yn Nghapel Pant-y-defaid oddiwrth y testun a ddewisasai ei hun, Salm xxiii. 4.

Chwefror 6ed, yn 73 oed, gweddw y diweddar John Thomas, saer, Porthyrhyd, yr hon a fuasai aelod o'r ffyddlonaf am flynyddau meithion yn eglwys Llwynrhydowen. Pregethodd gweinidog y lle yn ei hangladd, oddiwrth 2 Tim. ii. 19.

W. Thomas.

AWDL

Er coffadwriaeth am y diweddar Fardd enwog y Parch. DANIEL EVANS, M.A., (Aelod o Goleg Iesu, Rhydychain,) sef DANIEL DDU, o GEREDIGION; gan CEREDIG.

Testyn Eisteddfod Llanbedr, Ceredigion, Mehefin 22, 1859.

AMLACH na llawen wên wâr,
Acth Dynoliaeth dan alar;—
Hiraeth, ing, alaeth, yn nghyd,
A biau gwpan bywyd.

Sai'r melus ar i 'ymylon;—yn ddyfnach,
Cynnwys ddafnau chwerwon;—
Yn nghêl, dig, angeuol dôn,
A leda trwy'i waelodion!

Ac nid rhyw ddyeithr eithriad,—i'n awen
Wau newydd alarnad;— [rhwydd;
Am feibion glwysion ei gwlad—wyla'n
A chyfarwydd yw o'i chyfeiriad!

Ond, weithion, digon y dasg
I'w chyhoedd alluoedd llesg,—
Nydda gân yn ddu ei gwisg
A'i dagreulif yn llif llosg;
Yn gaeth, yn ngwŷll hiraeth llusg,
Ingawl lef, angeuol wsg—
Am wr o ddawn a mawr ddysg.—
Y mae galar a drymha y galon
Dymmor, na all agor o'i llewygon;
Ni ddaw i'r golwg ei thrist ddirgelion
Heblaw'n deori fydd, ei blinderon;
Efelly Gwalia am gyfaill gwiwlon,
Oedi, er hiraeth, wnai hyd yr awr'on;
Ond—gyr y clwyf, hyd eigion—dyfnaf—
Du gyrau eithaf ei dagrau weithion!

Dwyn ael ddwys am Daniel Ddu--dyn brofwyd
Yn Brif-fardd, mae Cymru;
A'r awen fad, eirian fu,
Gawd i lwyr gydalaru.

Gwae'r degwedd Geredigion—brudded aeth!
A'i Bardd Du rhwng meirwon!
Y mae braw'n dyrwymo'i bron—
Trwch alaeth trwy ei chalon!

Trist ei chyflwr am y gwr a garai
Gynnau yn anwyl!—ei gân enynai
Serch ei mhynwes oreuwych, ymhoenai
At allu'r dalent, a'i llwyr hudolai;
Mal un ag ef ymlonai;—ar lwyddiant
Fu i'w gogoniant, mor fyg y gwenai!

Y fam fwyn, o gwyn ac aeth,
Er tyneru tòn hiraeth,—
Am ei harab fab, a fu
Hyd ei einioes, i'w denu,
Rhwydd ini rhydd ei hanes,
Ei fyr lwydd—ei ddirfawr les,

Ei wâr anian a'i rinwedd,
O'i gryd,—ei fywyd i'w fedd;—
Dyma, i lidus deimladau,
Symwth hedd, i'w hesmwythau.

Yn hafal nineu hefyd,
A chalon hoff, chwiliwn hyd

Aml nôd, yn hynod hanes,—ein hanwyl,
A'n henwog Fardd eres;—
Adrodd gyflawnodd o les,
Tery fwyniant i'r fynwes.

Cofir e'n laslanc cufwyn,
Chwareugar, dengar, ar dwyn,
Man hoff, ger nant, yn mwynhau
Yn bleidiol, gân a blodau:
Yn gynar ef, gan ei wrid,
Ail llodyn rhosyn, rhesid;
Anwyl a hardd f'ai'r Bardd bach
Yn monwes MAESYMYNACH.

Ufudd, gwâr, fyddai, a gŵyl,
I'w rieni'n oranwyl;
Difyr i'w frodyr ydoedd,
Mân serch yn eu mynwes oedd;
A charai ei chwiorydd
Ei weled ef, uwch haul dydd.
Enwog gan gymmydogion,
Pan yn ieuanc, f'ai'r llanc llon;
Gan atynion ei fron frwd,
Cymar ie'nctyd y Cwmwd;
Awdwr eu cerddi ydoedd,
Ys hael fardd, a'u Selyf oedd.
Os henwr geisiai'i anerch,
Teimlai o swyn teml ei serch.

I'w dymher, aeddfwyuder fu,
A glew anian, yn glynu;
Yn ngwyneb llew, fal glew glŷn,
Ond i wanaidd, neud oenyn;
I druan egwan, er neb,
Ni ildiai, mewn anwyldeb;
Càr ydoedd i'r creadur
Yn dwyn gwasg, neu dan ei gur,—
Os tan lwyth, estynai law—
Llaw a'i swydd yn lles iddaw.

Hoffai'r 'deryn ar y brigyn,
Swyn ei delyn, syn ei daliai;
Dim mor llawen a llais awen,
Is yr heulwen a'i siriolai.

Y gwirion gantawr garai,
Er byd, ei nyth arbed wnai.

Dyleuwai hudol anian—ei ſynwes,
O elfenau cyngan ;
I'w wyneb, eglurdeb glân
Gwiw ddyry o'i gwedd eirian.

Bryniau moelion Ceredigion,
Garai'i galon, gŵr i'w gilydd ;
A phrydferthion cymau ceimion—
Araf finion yr afonydd.

Myfyrdod awdurdodai
Ei fron wâr, yn gymmar gai.

Byw gynneddfau,—'r awen hithau
Am deg emau mwy digymysg,
Yn elfenau gwybodaethau,—
Ffoen' i noddau ffynon addysg.

Eliazer Williams, hwylusodd
Ei fyfyrdodau borau burodd ;
Ei ddiail awen, dda oleuodd,
A'i ddawn i'r uniawn, a arweiniodd ;
Fal blodyn, f'ai wlyb, ledodd--i nawdd Haul
Y nefoedd araul, yn ufudd ŵyrodd.

Wele bellach, rhwyddach ymroddai,
Ar fôr Gwyddoniaeth helaeth, hwyliai ;
Lladinwr, ei ddeall ledaenai—
Groegwr fel ei frawdwr efrydai—
A'r Ebrëwr wobrwyai—'i gywreindeb,
I ateb y ddeiseb ddewisai.

Ein Bardd olrheiniai, gwyliai ddirgeloedd
Isaf, yn eitha'r cysefin ieithoedd ;
Hynodion, ac hanesion cynoesoedd,
Dawn iawn, ac ewybr, eu dynion cyhoedd,—
Y rhai a folid am drin rhyfeloedd,
Gafas a thradwys, gofus weithredoedd ;—
Dirwyn oesawg deyrnasoedd,—wnai'n eres,
Sy obry yn hanes eu brenhinoedd.

Ei dwym anian yn dymuno—rhawd uwch
Rhydychain, i ddringo
I dda fraint, nad oedd i'w fro,
Llŷs addysg gai'n lles iddo.

Ond ei fron dirion ar dori—ydoedd,
Wrth adaw glyn Teifi ;
A'r awen fu ar rewi,
Pan aeth, gan ei hiraeth hi.

Er du rwystrau ar dir estron,
Mwy i ferion dysg, myfyria
Wybodaethau, biau docthion,
O'u cyfrinion y cyfrana ;—
Eto'i galon yn hiraethlon,
Uwch ei nwydion, ocheneidia,—
Er cysuron—serch y Saeson—
Swyn anwylion sy'n hen Walia.

Bob hamdden ga'i awen, rhag ei gwywo
Mewn pridd alaeth, mae yn peraidd cilio ;
Hynawsaidd gyfaill, unswydd ag efo,
Fu Teoid—un welid i'w anwylo ;
Enwogion brifon eu bro —un deimlad,
Gaid o fyw fwriad i gydfyfyrio.

Dyna gymdeithion doniawl,—ïe dyna
Ddau dywyniad nefawl !
Galluoedd, o gylchoedd gwawl,
Yn oddaith awenyddawl !

Yn ddig am rwygaw y ddau Gymreigydd,
Llawer ymroddant, yn llwyr, amryw-ddydd,
Hwythau'n dyfawl Jonathan a Dafydd,
Fyth yn ffyddlon o galon i'w gilydd ;
Rymusion, at y maesydd—cydrodient
Yn nglŷn y gweuent Englyn, neu Gywydd.

Trwsio, cynull, trysori y ceinion,
O lyfrau, dethawl lafur y doethion,
Ddug ein Daniel, drwy uchel ymdrechion,
I *raddau*, a sylw yr urddasolion ;
I Goleg Iesu gwiwlon—rhwng eraill,
Y deuai'n *gyfaill*, a da iawn gofion.

Eto Cymru'n gu a gaid
Yn ei anian, a'i enaid ;
Ofer ceisio, i fro fras,
Daniel, i arddel urddas :
Hell ing frwd, ollwng o'i fron,
A'i gof oll, ei gyfeillion,
Na'i wlad,—mor anwyl ydoedd,
O'r hon rhan, i'r haner, oedd.

I'w fro anwyl efe a arweiniai
Ei gamrau diwyd—i Gymru deuai ;
Yn Ngheredigion, rhagorion garai—
Swyn a gwên foddus, yno ganfyddai ;
Ei henw i'w fedydd barddol hanfodai ;
Er ei gwiwlwydd, rhagwelai—mai ei lwch
Ei hun, f'ai'r elwch, a'i hanfarwolai.

Am ei beirdd ymgomiai byth—
Am eu hylym wchelyth ;
Dewis offeiriaid awen,
Tirion bobl, ystyriai'n ben.

Planigfa burdda beirddion—nef awen,
Fuost Geredigion !
Fam dyner ! tra ser, try son,
Yn herwydd dy lenorion.

Dy lŷsoedd i Daliesin—a fuant
Noddfaoedd cynnefin ;
A'th awengar, wâr werin,
Garai'i wech gerdd, goruwch gwin.

Gwelaist, n'ol hyn, Ab Gwilym,—er dy fri
Ar dy fron, yn wawdlym ;
Ef faethaist, llonaist a llym
Athrylith goeth, a thrylym.

A'r Prydydd Hir, parod ei ddawn,—noddaist
Yn addfwyn a ffyddlawn ;—
Fal môr, oedd galluoedd llawn,
Y gwr hyddysg goreuddawn.

Ac Edward Risiard, i'r oesoedd,—lona'n
Olynol, y bobloedd ;—
Ei gerddi'n lloni, rhwng llynoedd--siriawl ;—
Ber ddawn hynodawl, bardd anian ydoedd.

Eliazar Williams, garai—r'awen,
A rhywiog yr odlai!
Nwyf i fron, ail meillion Mai,
Ei fawr ddawn, pan farddonai.

Barddas o urddas arddel,—gwn, a fu
Gan fardd Castell Hywel;
Ein Dewi, awen dawel.—ga'dd i'w ran
Anadl, i yngan odlau angel.

Ond wele gymmar hygar, rhywiogaf,
O addien acen, i'th feirdd enwocaf;—
Llawn yw o'r awen, a llenor hoywaf—
Cywirddwys eiliwr, ac urddasolaf;—
Ceredigion, hinion haf—feddi'n wir!
A'th fro di elwir fyth hyfrydolaf!

Wedi nos a düo nen,
Ag oer rew, gaua'r awen,
I'w hymlid, gwelid y gain
Wawr, a dorai o'r Dwyrain;—
Deuodd haf, a hi'n dyddhau,
Hafal Eden ei flodau!
Têr glôd, ai trwy y gwledydd,
Hyd orawr dawn, dori o'r dydd;
A'bu cerdd yn bywiocau,
Cynedig aceniadau.
Deffröa holl Walia wen
Ei llaw syw, yn llys awen!

Gwahoddiad, gaffai rediad gyffredin
Fu, ar ddynesiad, i feirddion iesin,
Fod i ddoniau, dda wobrau yn ddibrin,
Fai'n agos hafal i fu'n gysefin;
A *chadair* orwech wedi'n,— am farddas,—
Cywiraf urddas—yn nhref Caerfyrddin.

Yma Daniel Ddu, ymdywynai
Fal haul entyrch ei lewyrch oleuai;
E fu urddunant i'r hyn farddonai,
Ei allu'n Brif-fardd, allan a brofai;
Cynnal cred, yn Nyfed wnai,—rhag diflant
Ei beirdd, a'i ffyniant a bur ddiffynai.

Hyawdl e ganai ei odlig enwawg
I Goleg mawr fri Dewi, 'n flodeuawg.
A'i Awdl arwraidd, adail oreurawg,
I gu wrolion Groegia arialawg,
Yn chwimwyth eriyn gelyn bygylawg;
Brwydrau hyson, y dewrion diwyrawg,
Ddarluniai, lliwiai, fel Homer alluawg;
Trylen ei gref awen, a gwir fywiawg,
Gyda'i hediadau hyf a godidawg;
A'r bardd godai, resai'n rhawg—yn mlaenaf,
O'r enaid lwysaf feirdd ariandlysawg.

Yn dy fri, Geredigion,—y llonaist,
Bob llanerch yr awron;—
Holl Ddyfed, ar lled, mor llon—a'i fagias,
Pan wybu'i urddas, megis Pen-beirddion.

Holl Ddeheudir, ail un frodir, lon hyfrydai;—
Gogledd gwiwglod, hylan uchod, lawenychai.
I dân doniau, bu llwyr bellau;—
Anadl hoff i'w genedl aeth,
Can ei odiaeth ganiadau.

Ai'n Feirniad, ar fudiad Eisteddfodau,
A dug glaer enwad am deg glorianau;
Ys bu'n wir medrus esboniwr mydrau;
A mawr Blenydd yn mbarabl awenau;
Byddai ef yn boddâu—'r afiwyddianus,
A gwir ddaionus gerydd ei enau.

Y Gwyneddigion, ddynion o ddoniau,
A'r Cymreigyddion, trwy gyson geisiau,
A gyd-wahoddent y dalent olau
I'w cyfundeb, â gwyneb ei gwenau:
Fel yn addurn, flyneddau,—bu enwog
Em, do, a th'wysog eu Cymdeithasau.

Diwyd a brwd ei awen
Gu wawdiai gerdd, gyda gwên;
O'n holl fil, enillai hon
Mwya' sylw ein Misolion;
Ein bardd i'r rhai'n ranai'n rhwydd
Enrhyg, o'i mawr ffrwythlonrwydd;
Ei mêl o hyd yn amlhau
Ffraethineb ffrwyth ei enau.

B'ai benaf, o bob annerch,
Dawn ei swyn, ar danau serch;
Bardd yn yngan anian oedd,
A bron sad,—ein Burns ydoedd,

Eiliodd—offrymodd ei fraeth—oludog
"*Wlad fy ngenedigaeth*"
I'w gyfaill,* gydag afiaeth: *Tegid.
Aflonid hwn, fel nad aeth

Fel y bwriadai ef lwybro,—oedodd;—
Yn ei fro iesin efe arosodd;
Awenydd uchel Daniel, a'i denodd
O afael un dynged flin, diangodd;
Agwedd dueddiad y gerdd a doddodd
Ei enaid, i naws llymaid, nes llamodd!—
Bu anwylaw, ban welodd—nad oedd gris,
Neu olud megis y "Wlad a'i magodd."

(I'w barhau.)